*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 17 Mawrth 2025** am **09.30 o'r gloch**
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2024-25**

**7. Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025-26**

**8. Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024**

**9. Asesiad Risg Blynyddol Archwilio Cymru (llafar)**

**10. Diweddariad Rheoli Trysorlys**

**11. Buddiannau'r Gyflogres**

**12. Diweddariad IFRS 16**

**13. Rheolau'r Weithdrefn Contractau**

**14. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 15. Dim

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Rhagfyr 2024 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
| --- | --- |
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts (gadawodd 10:15) | Cyngor Gwynedd |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
| --- | --- |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Elgan W Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro |
| Anne-Marie Harrop | Mersey Internal Audit Agency |
| Angharad Ellis | Mersey Internal Audit Agency |
| George Jones | Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |

## 1.0 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
| --- | --- |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
| --- | --- |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

## 4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEDI 2024

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024 i'w cymeradwyo. Nodwyd bod ymddiheuriadau wedi'u cofnodi ar gyfer y Cynghorydd Dylan Rees; fodd bynnag, gan ei fod yn bresennol fel arsylwr, nid oedd hyn yn angenrheidiol ac felly dylid ei ddiystyru.

4.2 Gofynnodd y Cynghorydd Gareth R Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod ond bod ei ymddiheuriadau wedi eu cofnodi.

**4.3 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhelir, gan nodi'r newidiadau uchod.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Mewn perthynas â pharagraff 5.2, cadarnhaodd PSTC HM bod cadarnhad wedi dod i law bod y pensiwn SCAPE yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru ar swm o £627,000.

## 6.0 ADRODDIAD CYNNYDD GAN ARCHWILIO MEWNOL

6.1 Croesawyd Angharad Ellis o MIAA i'r cyfarfod a chyflwynodd hi’r adroddiad cynnydd gan Archwilio Mewnol, a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 hyd yn hyn.

6.2 Cadarnhawyd y byddid yn olrhain hynt yr holl gamau gweithredu sy'n weddill yn 2025 i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

6.3 Nododd PSTC MacArthur fod rheolaethau cryf ar waith a diolchodd i'r tîm Cyllid a'r rhai yn MIAA am eu gwaith yn y maes hwn.

6.4 Cadarnhawyd, er nad oedd y strategaeth hyfforddi wedi cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd eleni, bod cynllun busnes y Ganolfan Hyfforddi newydd ar y flaenraglen waith i'w adolygu’r flwyddyn nesaf.

6.5 Nodwyd bod MIAA yn cynnal nifer o ddigwyddiadau am ddim a gofynnwyd i'r Aelodau gael gwybod am y rhain wrth iddynt godi.

**6.6 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25.**

## 7.0 DIWEDDARIAD RHEOLI'R TRYSORLYS CH2 2024/25

7.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, Ddiweddariad Rheoli'r Trysorlys, a'i ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Awdurdod am weithgarwch rheoli'r trysorlys a chydymffurfio â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 30 Medi 2024.

7.2 Amlygwyd y byddai siawns y bydd angen i'r Awdurdod fenthyca arian dros y 12 mis nesaf, a bod hyn wedi'i gofnodi fel risg gan y byddai angen talu mwy o log o ganlyniad.

**7.3 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gweithgarwch rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024.**

## 8.0 PENNU CYLLIDEB 2025-26

8.1 Rhoddodd PSTC MacArthur wybodaeth gefndir i'r Aelodau am sefydlu'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb a chyfranogiad MIAA yn y broses o bennu'r gyllideb, a rhoddodd drosolwg o'r ffigurau lefel uchel a gynhwysir yn yr adroddiad. Cadarnhaodd hyn ofyniad cyllideb gros o £52.389m a'r cynnig i ddefnyddio £0.6m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant anghylchol. Y gofyniad ardoll net ar gyfer 2025/26 fyddai £51.588m sy'n adlewyrchu cynnydd o 7%, ac yn ymgorffori costau o tua 2% yn llawn sy'n deillio o'r cynnydd diweddar i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr. Gan addasu ar gyfer y cyfraniad yswiriant gwladol, y cynnydd o flwyddyn i flwyddyn fyddai 5%.

8.2 Yna cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael, bapur Pennu Cyllideb 2025-26 a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, ac i geisio cymeradwyaeth i gadarnhau'r ardoll ddangosol gydag awdurdodau lleol cyfansoddol.

8.3 Diolchwyd i aelodau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb am eu cyfraniad amhrisiadwy i'r broses o bennu'r gyllideb.

8.4 Trafodwyd y ffigyrau allweddol yn yr adroddiad yn fanwl a gofynnodd Aelod a oedd y ffigyrau Airwave wedi eu cynnwys o fewn y gyllideb. Holwyd hefyd a ellid cynnwys ardoll ac eithrio'r ffigurau Yswiriant Gwladol o fewn y tabl a gyflwynid i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2025.

8.5 Cadarnhawyd y byddai colofn ychwanegol yn cael ei hychwanegu i ddangos yr ardoll heb yr Yswiriant Gwladol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd fod yr achos llys ynghylch Airwave yn destun apêl ar hyn o bryd ac os na fydd yr apêl yn cael ei dyfarnu o blaid y Gwasanaeth, byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i dalu'r gost. Fodd bynnag, roedd yn edrych yn debygol y byddai'r Gwasanaeth yn ennill yr apêl.

8.6 Gofynnodd Aelod a oedd rheswm dros y cynnydd mewn ardoll i Wynedd, er gwaethaf y ffaith bod y gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn eu gosod isaf yng Nghymru fesul pen o'r boblogaeth. Eglurwyd bod angen cymharu'r boblogaeth gynyddol yng Ngwynedd â'r cynnydd yn y boblogaeth yng Nghaerdydd ac Abertawe, a'r asesiad o angen ar gyfer pob awdurdod lleol.

8.7 Nododd y Trysorydd, yn ôl ei natur, fod y broses o bennu cyllideb yn seiliedig ar nifer o dybiaethau ac felly nad oedd yn wyddor fanwl gywir. Er bod swyddogion wedi ceisio bod yn ddarbodus, roedd nifer o risgiau'n parhau o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, teimlwyd bod y gyllideb a gyflwynwyd i'r Aelodau yn gadarn.

**8.8 PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;**
- **ii) nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol o ofyniad cyllideb o £52.389m ar gyfer 2025/26;**
- **iii) nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer 2025/26; a**
- **iv) cymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

## 9.0 MESUR LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2009

9.1 Cyflwynodd PSTC Anthony Jones y tri phapur Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, a oedd yn cadarnhau i'r Aelodau ganlyniad yr archwiliad allanol o Asesiad Perfformiad 2022-23 yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

9.2 Nodwyd bod tair tystysgrif cydymffurfio wedi eu derbyn gan Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Mesur: yr Asesiad Perfformiad ar gyfer 2022-23; yr Asesiad Perfformiad ar gyfer 2023-24; a'r Cynllun Gwella ar gyfer 2024-25.

9.3 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr oedi yn yr Asesiad Perfformiad ar gyfer 2022-23 wedi bod oherwydd absenoldeb salwch yn Archwilio Cymru yn hytrach nag unrhyw broblem o fewn y Gwasanaeth ei hun.

**9.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r llythyrau archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

## 10.0 CYMERADWYO MANDAD BANC

10.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Cymeradwyo Mandad Banc a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau mewn perthynas â dirprwyo trefniadau bancio.

10.2 Gofynnodd Aelod a allai'r ffaith bod angen dau lofnod achosi problemau o ran argaeledd.

10.3 Holodd Aelod arall, gyda'r uchod mewn golwg, a allai hi fod yn ddoeth cael pedwar llofnodwr rhag ofn y byddai staff yn absennol, ac eglurwyd bod y llofnodwyr sy'n cael eu cymeradwyo heddiw ar gyfer swyddogaethau craidd yn unig, megis cymeradwyo llofnodwyr ar gyfer dyletswyddau o ddydd i ddydd fel cymeradwyo taliadau.

**10.4 PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r cynnig i ddirprwyo'r gweithgareddau a nodir yn y papur i unrhyw ddau lofnodwr o blith y rhai canlynol: y Prif Swyddog Tân, Trysorydd yr Awdurdod neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau.**

## 11.0 CYNNIG CAFFAEL YMGYNGHORIAETH AR GYFER Y GANOLFAN HYFFORDDI

11.1 Cyflwynodd PSTC Justin Evans y strategaeth gaffael arfaethedig ar gyfer penodi gweithwyr ymgynghorol proffesiynol ar gyfer prosiect y ganolfan hyfforddi newydd.

**11.2 PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r llwybr caffael cydymffurfiol arfaethedig ar gyfer gwasanaethau ymgynghori proffesiynol drwy fframwaith sector cyhoeddus;**

## 12.0 MATERION BRYS

11.1 Nid oedd materion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:30

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2024-25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) hyd at 28 Chwefror 2025.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae'r Mersey Internal Audit Agency (MIAA) wedi cael eu penodi i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno. Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r gwaith a wnaed rhwng 1 Rhagfyr 2024 a 28 Chwefror 2025.

4 Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgymerodd MIAA â'r gwaith maes ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. Bydd y canlyniadau'n cael eu rhoi i gyfarfod Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol pan fydd yr holl gyfatebiaethau posibl wedi'u hymchwilio'n briodol.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau’n:

**i) Nodi’r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25; ac yn**
**ii) Nodi’r gwaith a gwblhawyd yn derfynol rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2025.**

## CEFNDIR

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

8 Penododd yr Awdurdod MIAA fel ei archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

## GWYBODAETH

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2024/25 ac yn cadarnhau bod yr adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol:

- Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol
- Gwaith maes y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)
- Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi
- Caffael

10 Mae elfen derfynol cynllun archwilio 2024/25 yn ymwneud â threfniadau rheoli risg yr Awdurdod ac mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd ac adroddir yn ei gylch wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod y taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Awdurdod yn ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Mawrth 2025)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'r gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Hefyd, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1 Rhagfyr 2024 i 28 Chwefror 2025.

## 3 Crynodeb Gweithredol

**Adolygiadau Archwilio 2024/25**

Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:

- Y Fenter Twyll Genedlaethol – Paratoadau (N/a Sicrwydd)

Rydym wedi ymgymryd â gwaith paratoi ac adolygiad cychwynnol o'r cyfatebiaethau data (derbyniwyd Rhagfyr 2024 ac Ionawr 2025). Rydym wedi cyhoeddi nodyn briffio ar y Fenter Twyll Genedlaethol sy'n rhoi crynodeb o'r cyfatebiaethau data a gafwyd a dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau priodol wrth glirio'r cyfatebiaethau hynny. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud fel rhan o Gynllun Archwilio Mewnol 2025/26 lle bydd adroddiad llawn yn cael ei roi gydag archwiliad manylach o'r cyfatebiaethau.

- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb (N/a Sicrwydd)

Rydym wedi mynychu a darparu cefnogaeth yn y cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb.

Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd a'r Camau Gweithredu Allweddol i'w Cyflawni

Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:

- Rheoli Risg (Gwaith Maes)

## Camau Dilynol

Mae ein gwaith dilynol ar y gweill a bydd adroddiad yn cael ei roi yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2025.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw newidiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i newid y cynllun archwilio a gymeradwywyd.

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang

O fis Ebrill 2025 bydd yn ofynnol i MIAA gydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a Nodyn Cymhwyso Sector Cyhoeddus y DU: *Global Internal Audit Standards in the UK Public Sector* (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel GIAS yma). Mae'r dogfennau hyn yn disodli Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS).

Er mwyn cefnogi ein parodrwydd i fabwysiadu'r GIAS o fis Ebrill 2025 mae ein Cyfarwyddwr Cyswllt – Gwelliant Parhaus wedi cynnal asesiad sylfaenol o'n lefelau cydymffurfio â'r GIAS ar hyn o bryd.

O ystyried cydymffurfiaeth lawn MIAA â PSIAS ar hyn o bryd, rydym yn cydymffurfio â'r mwyafrif o ofynion GIAS. Byddwn yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â holl ofynion GIAS o fis Ebrill 2025.

## Gwerth Ychwanegol

### Nodiadau briffio

Ein nodiadau briffio/blogiau/podlediadau diweddaraf:

- Cyfrannodd Cyfarwyddwr Sicrwydd MIAA, Louise Cobain, at nodyn briffio diweddaraf HFMA: The value of internal audit | HFMA
- 24/25 MIAA Insight - EU Artificial Intelligence Act and its wider implications

## Digwyddiadau

- The Power of Collaboration (26 Mawrth 2025): Bydd y Dosbarth Meistr ar-lein hwn yn adeiladu ar yr wybodaeth o adolygiadau Messenger a Darzi, ac yn edrych ymlaen yn eiddgar at ryddhau'r cynllun iechyd 10 mlynedd. Yn ogystal, mae'r cynllun gweithlu gofal cymdeithasol yn pwysleisio trawsnewid a dull gweithlu unedig, gan danlinellu'r angen am bartneriaeth a chydweithio yn ein gweithrediadau.

# Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan bod rhaid i'r prif swyddog archwilio gweithredol roi barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad eu defnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu.

Mae'r tabl yn crynhoi cyflwyno eich Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25:

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol | Cytuno ar Gylch Gorchwyl | Statws | Lefel Sicrwydd | Adroddiad y Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risg | ✓ | Gwaith Maes | | Mehefin 2025 |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Caffael | ✓ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Medi 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol (Paratoi) | Amh. | Cyhoeddwyd nodyn briffio | Amh. | Mawrth 2025 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Amh. |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |
| Ch4 | Amh. | Ar y gweill | | Mehefin 2025 |

Os nad ydym ni'n gallu sicrhau digon o ddyfnder neu gwmpas oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi rhybudd o hyn gyda'r farn ac egluro'i effaith a beth fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed.  Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Adrodd ar Reoleidd-dra | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyhoeddi Holiadur Boddhad i Gleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Bydd adroddiad dilynol yn cael ei adrodd ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys ac amrywiol iawn sy'n cynnwys 75% o staff cymwysedig. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.  Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

# Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau'n cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau o ran dylunio a / neu weithredu rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol arfaethedig i'r Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg yn ogystal â sicrhau bod rheolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol.

3 Mae angen rheolaethau mewnol priodol a gweithredol fel sylfaen i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Rheoli Mewnol blynyddol. Pan fyddant yn cymeradwyo'r Datganiad Rheoli Mewnol, mae'r Awdurdod yn dibynnu ar waith archwilio mewnol ac felly mae'n rhaid i'r trefniadau archwilio mewnol fod yn ddigon i roi sicrwydd.

4 Mae swyddogaeth archwilio fewnol yr Awdurdod yn cael ei chyflawni gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA). Mae adolygiadau archwilio mewnol yn cael eu cynllunio a'u blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg gan sicrhau bod rheolaethau allweddol yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Mae'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer 2025/26 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo'r rhaglen waith archwilio arfaethedig ar gyfer 2025/26.**

## CEFNDIR

6 Mae rheolaethau effeithiol gweithredol yn hanfodol i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ac maen nhw'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Datganiad Rheoli Mewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Penodwyd archwilydd mewnol yr Awdurdod, MIAA, ym mis Mehefin 2023. Mae gwaith MIAA yn cael ei lywodraethu gan safonau proffesiynol sy'n sicrhau dull systematig a chadarn.

## GWYBODAETH

8 Mae'r gwaith manwl a wneir gan MIAA yn cael ei gynllunio a'i flaenoriaethu yn ôl asesiadau risg sy'n ystyried risgiau lleol a chenedlaethol. Mae'r cynllun manwl ar gyfer 2025/26 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n cadarnhau'r rhaglen archwilio arfaethedig.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli a gweithredu systemau ariannol a systemau allweddol eraill mewn ffordd briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod a monitro cyllidebau yn effeithiol ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol ac yn gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae gwaith MIAA yn cadarnhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac/neu mae'n gwneud argymhellion ar sut i wella. |

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2025/26

# Cynnwys


1. Crynodeb Gweithredol
2. Eich cefnogi drwy ychwanegu gwerth
3. Deall eich gweledigaeth, amcanion a risgiau
4. Asesiad Risg Archwilio Mewnol
5. Cynllun Archwilio Mewnol Ar Tudalen
6. Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol 2025/26

Atodiad A: Cynllun Archwilio Mewnol Strategol Tair Blynedd

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad Allweddol archwilio mewnol


## Eich Tîm Archwilio Mewnol




**Anne-marie Harrop**
*Arweinydd Ymgysylltu*
07920 150313
Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk





**Angharad Ellis**
*Rheolwr Ymgysylltu*
07469378328
Ann.ellis@miaa.nhs.uk





**Charles Black**
*Rheolwr Cyflawni*
07554 332410
Charles.black@miaa.nhs.uk

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ein gweledigaeth** | MIAA fydd darparwr dewis y cyhoedd a 3$^{Rd}$ cleientiaid yn y sector, gan eu cefnogi i ddarparu gwerth a gwella gwasanaethau er budd y bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. | | | | |
| **Ein Cenhadaeth** | Hybu gwerth a gwella canlyniadau drwy ragoriaeth a phroffesiynoldeb | | | | |
| **Ein Gwerthoedd** | **YMDDIRIED** | | **PARCH A THRUGAREDD** | **YMRWYMIAD I ARLOESI A RHAGORIAETH** | |
| **Ein hamcanion strategol** | **CYLLID**<br>Sicrhau bod MIAA yn gynaliadwy ac yn parhau i dyfu ei sylfaen cleientiaid, cynhyrchion a chynigion gwasanaeth | **ANSAWDD A GWASANAETHAU GWERTH YCHWANEGOL**<br>Sicrhau bod MIAA yn dangos gwerth ychwanegol, yn darparu gwasanaethau o ansawdd a phroffesiynol i'n cleientiaid | **POBL**<br>Parhau i recriwtio, datblygu, cefnogi, cadw a gwobrwyo ein pobl i wneud y mwyaf o'u potensial | **LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**<br>Sicrhau ein bod yn dangos llywodraethu ac atebolrwydd effeithiol a phriodol i'n rhanddeiliaid | **ARLOESEDD**<br>Parhau i arwain ac arloesi ar draws ein holl wasanaethau |

# 6 Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol 2025/26

| Adolygiad & Cwmpas | BAF Risg / Rhesymeg | Cyflenwi wedi'i gynllunio | Arweinydd Gweithredol |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu, Risg a Chyfreithlondeb | | | |
| **Rheoli Risg – Rheolaethau Craidd:** Rhoi sicrwydd bod rheolaethau rheoli risg craidd wedi sefydlu a chynnal a chadw. | **Gofyniad Barn HOIA** | C4 | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Cyllid a Chynaliadwyedd | | | |
| **Systemau Ariannol Allweddol:** Gwerthusiad blynyddol o'r rheolaethau ariannol allweddol, gan gynnwys Cyfriflyfr Cyffredinol, Incwm, Dyledwyr, a Rheoli Trysorlys. | **Sicrwydd Craidd** | C3 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| **Mynychu cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb:** I fynychu a darparu goruchwyliaeth yng nghyfarfodydd Craffu'r Gyllideb (yn ôl yr angen) | **Cais rheoli** | C1 - C4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| **Menter Twyll Cenedlaethol:** Gwerthuso ac ymchwilio i ganlyniad ymarfer paru data NFI. | **Gofyniad mandad** | C2 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| **Cynllunio Busnes:** Gwerthuso effeithiolrwydd y systemau a'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn mewn perthynas â'r aliniad rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio adrannau. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried datblygu, adolygu a chymeradwyo achosion busnes. | **Cais rheoli** | C1 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Cydymffurfiad | | | |
| **Rheoli Asedau Offer:** Gwerthuso'r systemau a'r prosesau sydd gan y sefydliad ar waith ar gyfer gweithredu rheoli asedau offer. | **Asesiad Risg** | C2 | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Dilyniant ac wrth gefn | | | |
| **Dilynol ac wrth gefn** | **Gofyniad safonau archwilio mewnol** | C1 - C4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Cynllunio ac Adrodd | | | |
| **Cynllunio, Rheoli, Adrodd a Chyfarfodydd** | **Gofyniad safonau archwilio mewnol** | C1 - C4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

# Cynllun Archwilio Mewnol Strategol Atodiad A – 3 blynedd

Mae eich cynllun archwilio strategol 3 blynedd wedi'i nodi isod:

## 2024/25

- Systemau Cyllidol Allweddol
- Caffael
- Rheoli Risg
- Cynllun Gweithredu Strategaeth Hyfforddi
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb

## 2025/26

- Systemau Cyllidol Allweddol
- Rheoli Risg Rheoli Rheolaethau Craidd
- Menter Twyll Genedlaethol
- Cynllunio Busnes
- Rheoli Asedau Offer
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb

## 2026/27

- Systemau Cyllidol Allweddol
- TG - Ceisiadau Beirniadol
- Fframwaith Rheoli Gorsafoedd
- Partneriaethau a Chydweithio
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb

## Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU

Mae'r Cynllun hwn yn cydymffurfio â gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang fel y maent yn gymwys yn Sector Cyhoeddus y DU a ddaeth i rym ar 1Sain Ebrill 2025.

## Cyfyngiadau

Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad yw gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.  Mae'r cyfrifoldeb am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill yn dibynnu ar reoli ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid oes MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall a pherson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol ac na fydd ganddo unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024, a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru, i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys yr Awdurdod. Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maen nhw'n sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 yn cynnwys cadarnhau'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys archwiliad o'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ardystiad o rwymedigaethau gwella'r Awdurdod, a chyhoeddi adroddiadau cenedlaethol.

4 Mae'r holl faterion a geir o fewn Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024 eisoes wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi'r crynodeb archwilio blynyddol.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu asesiad gwrthrychol o berfformiad yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn cynnwys ystyried gwerth am arian. |
| Cyfreithiol | Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd statudol Cymru |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r asesiad gwrthrychol mewn nifer o feysydd allweddol yn cefnogi gwaith yr Awdurdod i nodi ac i reoli risg. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2024



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

# Ynglŷn â'r Awdurdod Tân ac Achub

## Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu darparu



**Ffeithiau allweddol**

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnwys aelodau etholedig a enwebir, yn cynrychioli'r awdurdodau lleol ar draws ardal yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei chyfanrwydd.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr sy'n cynrychioli eu pleidiau gwleidyddol a'u hawdurdodau cyfansoddol fel a ganlyn:

- Cyngor Sir y Fflint [6]
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy [5]
- Cyngor Gwynedd [5]
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam [5]
- Cyngor Sir Ddinbych [4]
- Cyngor Sir Ynys Môn [3]

Gwariodd yr Awdurdod Tân ac Achub £36.88 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2023-24, sy'n gynnydd o 3.2% o 2022-23[1].

[1] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2023-24

**Ffeithiau allweddol**

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod Tân ac Achub £1.6 miliwn o gronfeydd arian parod cyffredinol wrth gefn a £7.4 miliwn o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i weithredu Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymdrin yn effeithiol â phob galwad am gymorth mewn achos o dân ac achosion brys eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol am benderfynu ar bolisi yn ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub. Ar lefel leol, mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub.

Derbynnir y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru drwy ardoll gan yr awdurdodau unedol lleol yn eu hardal. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar niferoedd poblogaeth.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2023-24 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio'r Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwelliant parhaus**

  Mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod wedi bodloni'r gofynion hyn.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid iddo fod wedi'i argyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.

- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

**I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol. Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Awdurdod wedi sefydlu trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.**

# Yr hyn a nodwyd gennym

## Archwiliad o Gyfrifon 2023-24 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

**Ar gyfer 2023-24:**

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 31 Mai 2024. Roedd hyn cyn y dyddiad cau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef 30 Mehefin 2024.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio yn dda iawn.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 24 Hydref 2024, cyn y dyddiad terfyn y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru sef 30 Tachwedd 2024.
- cafodd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac ein gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer fach o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a gododd o'n gwaith archwilio, a thynnwyd sylw'r Awdurdod Tân at y rhain yn ein Hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2024.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif a oedd yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon ar gyfer 2023-24 wedi cael ei gwblhau.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliant ac mae o'r farn ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2023-24.

## Adroddiadau a chynhyrchion cenedlaethol yn 2024

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob awdurdod, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol a allai fod o ddefnydd i'r Awdurdod, sydd ar gael ar ein gwefan:

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol (gan gynnwys Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol) | Rhagfyr 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | Medi 2024 |
| Digidol yn ôl dyluniad? – Gwersi o'n hadolygiad o strategaethau digidol ar draws cynghorau yng Nghymru | Awst 2024 |
| Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a deilliannau – Crynodeb o ganfyddiadau ein hadolygiad yng nghynghorau Cymru | Gorffennaf 2024 |
| Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol | Ebrill 2024 |
| O ymdrin â heriau wrth iddynt godi i ddiogelu at y dyfodol – yr her i wasanaethau cyhoeddus Cymru | Chwefror 2024 |

## Gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2024-25

Gwnaethom hefyd fwrw golwg ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gwelliant parhaus a'r modd y mae'n defnyddio'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2024-25 yn cynnwys:

- Gosod amcanion llesiant
- Atal tân risg uchel wedi'i dargedu

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe’i penodwyd gan Ei Mawrhydi’r Frenhines. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian mewn llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â’r gofynion sy’n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy’n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw’r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Y diweddaraf ynghylch Rheoli'r Trysorlys Q3 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd at 31 Rhagfyr 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod gòd ymarfer *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, ar y lleiaf, gymeradwyo adroddiadau alldro chwarterol a blynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2024. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

5 Yn ystod y chwarter, arhosodd benthyca a buddsoddiadau'r Awdurdod o fewn y terfynau a osodwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw ddiffygion newydd gan fanciau lle'r oedd yr Awdurdod wedi adneuo arian. Ymhellach, roedd incwm buddsoddi gwirioneddol yr Awdurdod yn uwch na'r incwm a ddisgwylid yn y gyllideb 2024/25.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Rhagfyr 2025.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

7 Mae chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) blynyddol y DU wedi aros uwchlaw targed 2% Banc Lloegr (BoE) yn rhan olaf y cyfnod. Adroddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fod prisiau defnyddwyr penawdol wedi codi 2.6% ym mis Tachwedd 2024, i fyny o 2.3% yn y mis blaenorol ac yn unol â'r disgwyliadau. Cododd CPI craidd hefyd, ond yn fwy na'r disgwyl, ac arhosodd yn uchel ar 3.6% ym mis Tachwedd yn erbyn rhagolwg o 3.5% ac o'i gymharu â 3.3% yn y mis blaenorol.

8 Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) y BoE gyfradd Banc ar 4.75% yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, ar ôl ei leihau i'r lefel honno ym mis Tachwedd ac yn dilyn toriad blaenorol o 25bp o'r brig o 5.25% yn y cyfarfod MPC ym mis Awst (pleidlais 5-4 i dorri).

9 Ym mis Chwefror 2025, gostyngwyd y gyfradd Banc i 4.5%. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng ymhellach i mewn i 2025, yn ddibynnol ar dwf cyflogau, chwyddiant gwasanaethau, ac amodau economaidd ehangach.

## CYD-DESTUN LLEOL

10 Ar 31 Mawrth 2024, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £14.82m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

11 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **31.12.24 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 27.94 | 28.31 |
| Benthyca allanol | -17.78 | -19.81 |
| **Benthyca mewnol** | **10.16** | **8.50** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.13 | -13.13 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.97 | 4.63 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

13 Mae sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Rhagfyr a'r newid dros y nine mis yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.24 Balans | Symudiad | 31.12.24 Balans | 31.12.24 Cyfradd |
|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | % |
| Benthyca tymor hir | 14.07 | -0.77 | 13.30 | 1.07 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 3.71 | 2.8 | 6.51 | 1.00 – 5.20 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **2.03** | **19.81** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | -1.48 | -1.52 | -3.00 | 4.70 - 5.19 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -1.48 | -0.15 | -1.63 | 4.62- 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.96** | **-1.67** | **-4.63** | |
| **Benthyciad net** | **14.82** | **0.36** | **15.18** | |

## BENTHYCA

14 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

15 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

16 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

17 Cododd benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill i 7% ddiwedd mis Mawrth 2024, yn bennaf oherwydd prinder gweithgarwch benthyca LA-LA yn ystod y mis hwnnw, gan fod cyfraddau tymor byr disgwyliedig wedi dychwelyd i ystod fwy cyson â'r farchnad ac roeddent yn gyffredinol tua 5.00% - 5.5%. Gwelwyd cyfraddau cynyddol tuag at ddiwedd y cyfnod.

18 Roedd cyfradd sicrwydd PWLB ar gyfer aeddfedrwydd 10 mlynedd yn 4.8% ar ddechrau'r cyfnod ac yn 5.4% ar y diwedd. Y gyfradd aeddfedrwydd 10 mlynedd isaf oedd 4.52% a'r uchaf oedd 5.44%. Roedd cyfraddau ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd yn amrywio o 5.01% i 5.87% yn ystod y cyfnod, a benthyciadau aeddfedrwydd 50 mlynedd o 5.88% i 5.69%.

19 Ar 31 Rhagfyr 2024, roedd gan yr Awdurdod £19.81m o fenthyciadau, cynydd o £2.025m o'i gymharu â 31 Mawrth 2024. Ceir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 31 Rhagfyr yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.3.24 Balans £m | Symudiad Net £m | 31.12.24 Balans £m | 31.12.24 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 31.12.24 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 17.78 | -2.977 | 14.810 | 3.200 | 7.400 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 0.00 | 5.000 | 5.000 | 5.200 | 0.660 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **2.02** | **19.810** | | |

20 Cymerodd yr Awdurdod fenthyciad newydd tymor byr o £5M gan awdurdod lleol ym mis Rhagfyr 24 sy'n ddyledus i'w ad-dalu ym mis Awst 25. Mae'r holl fenthyciadau tymor byr eraill yn cael eu dal gyda'r PWLB. Nid oes angen benthyca pellach tan fis Awst, fodd bynnag, os bydd symudiad sydyn yn y farchnad gyda cyfraddau gwell, yr awdurdod yn elwa ar hyn ar ôl cael cyngor gan ein cynghorwyr trysorlys Arlingclose.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 28 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.63 | 3.09 | 13 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.58 | 3.91 | 17 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **7.21** | | |

21 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI TRYSORLYS**

22 Cyhoeddodd CIPFA Reolaeth Trysorlys ddiwygiedig yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllawiau Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

23 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y chwarter, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £2.36m a £9.13m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Y Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.24 | | 31.12.24 | 31.12.24 | 31.12.24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans** | **Symudiad Net** | **Balans** | **Adenillon Incwm** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** | **dyddiau** |
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 1.48 | 0.15 | 1.63 | 4.62 - 5.14 | Ar alwad |
| Benthyciad cyfnod penodol | | 3.00 | 3.00 | 4.75 | 37 |
| Llywodraeth Ganolog | 1.48 | -1.48 | 0.00 | 4.70 - 5.19 | 4 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.96** | **1.67** | **4.63** | | |

24 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

25 Fel y mae meincnod atebolrwydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

26 Gostyngwyd y gyfradd Banc o 5.00% i 4.75% ym mis Tachwedd 2024 ac eto i 4.5% ym mis Chwefror 2025 gyda chyfraddau llog tymor byr yn bennaf o gwmpas y lefelau hyn. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 4.94% a 4.70%.

## CYDYMFFURFIAETH

27 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Mae gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif adnau a ddefnyddir ar gyfer adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Mae'r cyfraddau llog a gynigir ar adneuon trysorlys yn dueddol o fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cafodd adneuon eu cadw gyda Lloyd a Barclays yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

28 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 31.12.24 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Ydy / Nac ydy |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | **£4.63m** | ydy |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **0** | ydy |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | ydy |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | ydy |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 31.12.24 Gwirioneddol £m | 2024/25 Ffin Weithredol £m | 2024/25 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 19.81 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm y ddyled** | **19.81** | **28.99** | **30.99** | |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

**Meincnod Atebolrwydd**

33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

34 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.


| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **31.12.24 Gwirioneddol £m** | **31.03.25 Rhagolwg £m** | **31.03.26 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf Benthyciadau | 27.94 | 28.31 | 35.10 | 40.30 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.12 | -13.13 | -19.70 | -16.20 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 14.82 | 15.18 | 15.40 | 24.10 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **16.82** | **17.18** | **17.40** | **26.10** |
| **Benthyciadau presennol** | **-17.78** | **-19.81** | **-14.10** | **-8.50** |

35 Nid yw'r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

36 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio yr ariannir gwariant cyfalaf drwy fenthyca £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26,cynnydd o [2.5]% y flwyddyn oherwydd chwyddiant yn yr isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant, a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.

37 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

38 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.




**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

39 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 31.12.24 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Uchaf Terfyn | Isaf Terfyn | Wedi Cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| <12 mis | 7.19 | 36.31% | 60.00% | 0.00% | I |
| 12 mis ac <24 mis | 2.2 | 11.11% | 45.00% | 0.00% | I |
| 24 mis ac <5 mlynedd | 3.20 | 16.16% | 45.00% | 0.00% | I |
| 5 i <10 mlynedd | | 0.00% | 75.00% | 0.00% | I |
| >10 mlynedd a mwy | 7.21 | 36.41% | 100.00% | 0.00% | I |

40 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

41 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mark Morgan, Rheolwr Cyflogau** |
| Pwnc | **Buddion Cyflogres 2025-26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ar y gofyniad i weithredu'r holl Fuddion Gweithwyr sy'n gofyn am ffurflen P11D ar ddiwedd pob Blwyddyn Dreth, trwy'r System Gyflogres.

2 Yn 2024, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd yn ofynnol i gyflogwyr, o 6 Ebrill 2026, adrodd ynghylch a thalu Treth Incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NIC) Dosbarth 1A ar y rhan fwyaf o Fuddion mewn Nwyddau (BiKs) mewn amser real ar y Cyflwyniad Taliad Llawn (FPS).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

3 Mae deddfwriaeth yn mynnu bod yn rhaid i Gyflogwyr, o fis Ebrill 2026 ymlaen, brosesu'r rhan fwyaf o Fuddion mewn Nwyddau (BiKs) trwy’r gyflogres fisol. Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn gweithredu pedwar budd sy'n gofyn am gynhyrchu ffurflen P11D diwedd blwyddyn: -

a) Cerbydau Defnydd Personol Golau Glas
b) Cerbydau Defnydd Personol Heb Olau Glas
c) Ffisiotherapi
d) Cynllun Car Tusker (aberthu cyflog)

4 Y cynnig yw treialu buddion drwy’r gyflogres yn raddol ar gyfer y Gwasanaeth gan ddechrau ym mis Ebrill 2025, a chan ddechrau gyda Chynllun Car Tusker, er mwyn sicrhau bod y systemau presennol yn ddigonol ac yn alluog.

**ARGYMHELLIAD**

5 Argymhellir bod yr Aelodau’n:

**i) Nodi’r newidiadau i ddeddfwriaeth; ac yn**
**ii) cefnogi treialu buddion drwy’r gyflogres yn raddol dros flwyddyn ariannol 2025/26 i baratoi ar gyfer gweithredu'n llawn o fis Ebrill 2026 yn unol â'r gofyniad deddfwriaethol.**

**CEFNDIR**

6 Bob blwyddyn ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, mae'r Tîm Cyflogres yn prosesu cyfrifiadau BiK ar gyfer tua 60+ o weithwyr ac wedi hynny mae'n darparu datganiad buddion P11D i bob un ohonynt.

7 Mae'r broses bresennol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaeth brynu trwydded meddalwedd, gyda P11D Organiser ar hyn o bryd, bob blwyddyn ar gost o tua £700 yn cynnwys TAW.

**GWYBODAETH**

8 Bydd cyflwyno buddion drwy'r gyflogres o fis Ebrill 2025, sydd flwyddyn cyn y ddeddfwriaeth ofynnol, yn caniatáu i'r Gwasanaeth gyflwyno'r broses newydd yn raddol a phrofi'r system ar nifer fach o weithwyr i sicrhau cywirdeb a chydymffurfiaeth cyn cyflwyno'r holl fuddion mewn nwyddau.

9 Bydd cyflwyno buddion drwy'r gyflogres yn cael gwared ar yr angen i gynhyrchu ffurflenni P11D blynyddol ac yn darparu cyfrifiadau treth amser real a chywir i weithwyr, gan gael gwared ar gymhlethdodau prosesu buddion mewn nwyddau gan CThEF ar ffurf ôl-daliadau.

10 Bydd gweithredu Buddion Cyflog yn lleihau'r gohebiaeth a gynhyrchir gan yr Adran Cyllid a Chaffael, gan na fydd angen casglu a phrosesu'r data yn flynyddol mwyach nac yn cynhyrchu datganiadau buddion unigol.

11 Bydd cyflwyno trefn o fuddion trwy'r gyflogres yn lleihau'r gwaith gweinyddol sydd ei angen gan yr Adran Cyllid a Chaffael yn sylweddol, gan na fydd yn ofynnol mwyach i gasglu a phrosesu'r data'n flynyddol na chynhyrchu datganiadau buddion unigol.

12 Fodd bynnag, bydd angen llif misol sy'n gysylltiedig â'r gwahanol gynlluniau i ddarparu gwybodaeth i'r Tîm Cyflogres ar gyfer ei chofnodi yn System Gyflogres iTrent.

13 Byddai gofynion adrodd symlach newydd yn cael eu creu i gadarnhau'r buddion a dalwyd trwy'r gyflogres ar ddiwedd y flwyddyn.

14 Bydd y gwaith gweithredu'n cael ei arwain gan y Tîm Cyflogres a bydd yn cynnwys cyfathrebu'n uniongyrchol â'r rhai yr effeithir arnynt a thrwy'r crynodeb wythnosol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Dim |
| Cyllideb | Arbed costau rheolaidd |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol y bydd yr holl gyfrifiadau buddion mewn nwyddau cyfredol a gwblheir ar hyn o bryd gan y Gwasanaeth yn cael eu darparu drwy'r gyflogres erbyn mis Ebrill 2026. |
| Staffio | Gwell gwybodaeth amser real a fydd yn cefnogi staff gyda rheolaeth ariannol bersonol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Byddai hysbysiadau codio a dderbynnir gan CThEF yn cael eu monitro i sicrhau nad yw unigolion yn cael eu 'trethu ddwywaith' am y cyfnod. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **27 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Cyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 ar gyfer 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y newidiadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflwyno Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 (IFRS 16) ar gyfer cyfrifon blynyddol 2024/25.

2 Mae hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth a'r effaith ar adroddiadau ariannol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

3 Mae'r papur hwn yn amlinellu'r newidiadau angenrheidiol i gyflwyno IFRS 16 ar gyfer cyfrifon blynyddol cymdeithasau llywodraeth leol 2024/25, gan ganolbwyntio ar gydnabod lesoedd ar y fantolen i wella tryloywder a chymaroldeb.

4 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo lefel *de minimis* o £10,000 ar gyfer cydnabod lesoedd a'r defnydd o'r gost fenthyca ar 1 Ebrill 2024 neu ddechrau'r les fel y gyfradd ddisgownt.

5 Mae'r papur yn rhoi sicrwydd ar gydymffurfio ag IFRS 16 erbyn y dyddiad dod i rym, gan fanylu ar y cynllun gweithredu, asesiad o'r effaith, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau trosglwyddiad llyfn a chynnal uniondeb adroddiadau ariannol.

## ARGYMHELLION

6 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi'r newid deddfwriaethol ar gyfer IFRS 16;**
**ii) cymeradwyo lefel *de minimis* o £10k ar gyfer cydnabod lesoedd; a**
**iii) chymeradwyo'r gyfradd ddisgownt i fod yn seiliedig ar y gost fenthyca ar 1 Ebrill 2024, neu ar ddechrau'r les.**

## Cefndir

7 Mae IFRS 16, sy'n disodli Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol 17 (IAS 17), yn cyflwyno newidiadau sylweddol mewn cyfrifo lesoedd, trwy ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod y rhan fwyaf o lesoedd ar y fantolen. Mae hyn yn cynnwys yr ased hawl-i-ddefnyddio (ROU) a'r rhwymedigaeth les gysylltiedig. Prif nod y newid hwn yw gwella tryloywder a chymaroldeb mewn datganiadau ariannol, gan fynd i'r afael â materion fel ariannu oddi ar y fantolen a oedd yn gyffredin o dan IAS 17.

8 Nod cyflwyno IFRS 16 yw adlewyrchu realiti economaidd trafodion lesoedd yn fwy cywir. Trwy gydnabod asedau a rhwymedigaethau lesoedd, mae'r safon yn rhoi darlun cliriach o ymrwymiadau ac adnoddau ariannol cwmni. Mae hefyd yn effeithio ar fetrigau ariannol allweddol, gan wella'r asesiad o berfformiad gweithredol cwmni. Yn ogystal, mae IFRS 16 yn cysoni cyfrifo les â safonau eraill, gan hyrwyddo cysondeb a lleihau cymhlethdod mewn adroddiadau ariannol.

## Newidiadau a Gofynion Allweddol

9 Y prif newid o dan IFRS 16 yw cydnabod lesoedd ar y fantolen. Rhaid cydnabod yr holl lesoedd, ac eithrio lesoedd tymor byr a lesoedd asedau gwerth isel o dan *de minimis* penodol, ar y fantolen. Mae hyn yn golygu cydnabod ased ROU a rhwymedigaeth les gyfatebol. Mae rhwymedigaethau les i'w mesur ar werth presennol taliadau les dros dymor y les, gan ddefnyddio'r gyfradd llog sy'n ymhlyg yn y les neu, os nad yw'n hawdd mesur hyn, cyfradd fenthyca gynyddrannol y lesddeiliad.

10 Bydd cyflwyno asedau ROU a rhwymedigaethau les yn effeithio ar fetrigau ariannol allweddol, fel cymarebau dyled ac asedau net. Yn ogystal, bydd newidiadau yn y modd o gyflwyno'r datganiad incwm, gyda threuliau les yn cael eu disodli gan ddibrisiant yr ased ROU a llog ar rwymedigaeth y les. Mae angen datgeliadau manylach i ddarparu gwybodaeth am natur, swm, amseriad ac ansicrwydd llifoedd arian sy'n deillio o lesoedd, gan gynnwys gwybodaeth ansoddol a meintiol am weithgareddau lesio.

## Cynllun Gweithredu

11 Er mwyn bod yn barod ar gyfer IFRS 16, mae asesiad cynhwysfawr yn mynd rhagddo i nodi'r holl lesoedd presennol a sicrhau bod y data lesoedd yn gyflawn. Mae systemau a phrosesau cyfredol hefyd wedi'u gwerthuso i bennu eu gallu i drin y gofynion newydd. Bydd yr holl ddogfennau lesoedd angenrheidiol yn cael eu casglu a'u dilysu i sicrhau cywirdeb, gan nodi'r holl delerau les perthnasol megis opsiynau adnewyddu a thaliadau les newidiol.

12 Ar gyfer 2024/25, bydd effaith IFRS 16 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio taenlenni Excel, ond ar gyfer 2025/26 bydd systemau a phrosesau yn cael eu hadolygu a'u datblygu, i adolygu gallu o fewn Tech One i reoli cyfrifyddu lesoedd o dan IFRS 16 i awtomeiddio cydymffurfiaeth â'r safon.

13 Cafwyd hyfforddiant ac arweiniad gan CIPFA, Archwilio Cymru, a chydweithio rhwng Sefydliadau Llywodraeth Leol Cymru. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno a'i darparu i dimau cyllid a chaffael am y gofynion newydd a'u goblygiadau, a bydd y newidiadau'n parhau i gael eu cyfleu i'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys archwilwyr allanol. Mae modd gofyn am gyngor ychwanegol gan Rwydwaith Cynghori Cyllid CIPFA (FAN), a gwnaethpwyd hyn. Mae’r Rhwydwaith yn darparu cymorth gydag ymholiadau cyfrifyddu technegol.

**Lesoedd a Nodwyd**

14 Hyd at ddiwedd mis Chwefror 2025 mae'r lesoedd canlynol wedi'u nodi:

| Disgrifiad o'r Les | Nifer y lesoedd | Gwerth Blynyddol (£) |
|---|---:|---:|
| Adeiladau fel Lesddeiliad | 3 | £224,000 |
| Adeiladau ar y cyd | 14 | £0 |
| Cerbydau | 62 | £152,000 |
| Argraffwyr/Peiriannau Ffrancio | 21 | <£10,000 |

15 Mae IFRS 16 yn caniatáu i sefydliad bennu ei lefel *de minimis* ei hun ar gyfer cydnabod lesoedd. Yn dilyn adolygiad mewnol ac mewn ymgynghoriad â sefydliadau llywodraeth leol eraill a CIPFA, argymhellir bod yr awdurdod yn bwrw ymlaen â lefel *de minimis* o £10,000 ar gyfer cydnabod lesoedd.

16 Mae pennu lefel *de minimis* o £10,000 yn sicrhau mai dim ond lesoedd ag effaith ariannol sylweddol sy'n cael eu cydnabod ar y fantolen. Mae'r trothwy hwn yn helpu i symleiddio'r broses gyfrifyddu trwy eithrio mân lesoedd a fyddai fel arall yn gofyn am ymdrech weinyddol anghymesur mewn perthynas â'u harwyddocâd ariannol. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r egwyddor o fateroliaeth a'r un gwerth ydyw â'r lefel *de minimis* Cyfalaf, gan sicrhau bod datganiadau ariannol yn parhau i fod yn glir ac yn canolbwyntio ar yr wybodaeth fwyaf perthnasol er budd y defnyddwyr.

17 Yn yr un modd, mae angen pennu cyfradd ddisgownt i gyfrifo rhwymedigaeth y les; argymhellir bod yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â chyfradd ddisgownt i'w seilio ar gyfradd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ar 1 Ebrill 2024.

18 Bydd angen cyfrifo cyfradd ddisgownt unrhyw les a ddechreuodd ar ôl 1 Ebrill 2024 yn seiliedig ar y gyfradd sy’n ymhlyg yn y les. Os nad oes modd pennu’r gyfradd llog sy'n ymhlyg yn y les yn rhwydd, dylai'r lesddeiliad ddefnyddio eu cyfradd fenthyca gynyddrannol.

19 Mae'r dull uchod yn darparu dull cyson a thryloyw ar gyfer cyfrifo gwerth presennol taliadau les, sy'n cyd-fynd ag egwyddorion IFRS 16 ac yn sicrhau cymaroldeb ar draws cyfnodau ariannol.

**Casgliad**

20 Mae cyflwyno IFRS 16 yn newid sylweddol o ran cyfrifyddu les, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliaid gydnabod y rhan fwyaf o lesoedd ar y fantolen. Mae'r newid hwn yn gwella tryloywder a chymaroldeb mewn datganiadau ariannol, gan ddarparu darlun cliriach o ymrwymiadau ac adnoddau ariannol cwmni. Mae'r Awdurdod wedi cymryd camau cynhwysfawr i sicrhau cydymffurfiaeth ag IFRS 16, gan gynnwys gosod lefel *de minimis* ar gyfer cydnabod lesoedd a phenderfynu ar gyfradd ddisgownt briodol. Bydd y mesurau hyn, ynghyd â hyfforddiant trylwyr ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn hwyluso trosglwyddiad llyfn i'r safon newydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Dim |
| **Cyllideb** | Cafodd effaith IFRS 16 ei chofnodi yn ystod y broses o bennu’r gyllideb ac mae’r costau refeniw wedi’u cyllidebu. |
| **Cyfreithiol** | Gofyniad statudol i gydymffurfio â safonau cyfrifyddu. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb / Hawliau Dynol / Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Mae newidiadau IFRS 16 yn creu effaith faterol ar y cyfrifon blynyddol. |

**Atodiad 1: Diffiniadau**

**Les:** Mae les yn gytundeb cyfreithiol rhwng dau barti: y lesydd (perchennog) a'r lesddeiliad (tenant). O dan y contract hwn, mae'r lesydd yn rhoi'r hawl i'r lesddeiliad ddefnyddio eiddo, ased neu wasanaeth am gyfnod penodol yn gyfnewid am daliadau rheolaidd. Mae'r defnydd o lesoedd yn gyffredin ar gyfer adeiladau, cerbydau ac offer.

**Is-les**: Mae is-les yn drefniant lle mae tenant gwreiddiol (lesddeiliad) eiddo yn ei roi ar les i drydydd parti (is-lesddeiliad). Yn y sefyllfa hon, daw'r tenant gwreiddiol yn is-lesydd. Mae cytundeb yr is-les yn caniatáu i'r is-lesddeiliad ddefnyddio'r eiddo am gyfnod penodol, tra bo'r les wreiddiol rhwng y landlord (lesydd) a'r tenant gwreiddiol yn parhau i fod mewn grym.

**Ased Hawl-i-Ddefnyddio (Ased ROU):** Cofnodir Ased Hawl-i-Ddefnyddio (ROU) pan fydd cwmni'n rhoi rhywbeth ar les am gyfnod penodol a bod ganddo reolaeth dros ei ddefnydd, o dan IFRS 16. Mae'n berthnasol i lesoedd tymor hir ar gyfer adeiladau, gofod swyddfa, cerbydau, peiriannau, gan eu trin yn yr un modd ag asedau sydd dan berchnogaeth. Fodd bynnag, nid ystyrir lesoedd tymor byr (12 mis neu lai), eitemau cost isel fel gliniaduron, contractau gwasanaeth (e.e., tanysgrifiadau meddalwedd), a lesoedd wedi'u bwndelu â gwasanaethau (lle mae cyfran y les yn cyfrif yn unig) yn asedau ROU.

**Rhwymedigaeth Les:** Mae rhwymedigaeth les yn rhwymedigaeth ariannol sy'n golygu bod yn rhaid i lesddeiliad (y person neu'r cwmni sy'n rhentu ased) wneud taliadau les dros gyfnod y les. Cyfrifir y rhwymedigaeth hon fel gwerth presennol y taliadau les yn y dyfodol, â disgownt i adlewyrchu gwerth amser yr arian.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **17 Mawrth 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Crynodeb o Reolau Gweithdrefn Contract ATAGC 2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r newidiadau arfaethedig i Reolau Gweithdrefn Contract (CPR) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), yn dilyn diwygiadau i gyd-fynd â'r Ddeddf Caffael 2023, a weithredwyd ar 24 Chwefror 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r CPR yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer caffael nwyddau, gwaith, a gwasanaethau ar gyfer ATAGC. Mae Rheolau Gweithdrefn Contract (y Rheolau) yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer caffael nwyddau, gwaith, a gwasanaethau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRA). Mae'r Rheolau hyn yn sicrhau bod gweithdrefnau caffael yn effeithlon, yn dryloyw, ac yn atebol, gan ofyn am safonau uchel o onestrwydd gan swyddogion ac aelodau sy'n cymryd rhan yn y broses gaffael.

3 Mae'r CPR wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r Ddeddf Caffael 2023 ac mae'n seiliedig ar y fersiwn gyfredol o'r CPR a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2021. Mae'r diweddariadau'n cynnwys darpariaethau ar gyfer cynllunio caffael, caffael cynaliadwy, a diogelu, yn ogystal â gofynion ar gyfer dyfynbrisiau a thendr, rheoli contractau, a chontractau penodol fel trafodion tir.

4 Trwy gadw at y CPR diweddarwyd, gall yr Awdurdod gyflawni ei amcanion strategol tra'n cynnal tryloywder, atebolrwydd, a'r safonau uchaf o onestrwydd ym mhob gweithgaredd caffael.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi'r prif newidiadau yn y CPR; ac**
**ii) Argymell cymeradwyo'r CPR gan yr Awdurdod.**

## CEFNDIR

5 Mae'r Ddeddf Caffael 2023 yn mynnu bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (NWFRA) yn cadw at Reolau Gweithdrefn Contract diweddarwyd i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau statudol. Mae'r Rheolau hyn, a ddiwygiwyd ddiwethaf ym mis Tachwedd 2021, wedi'u diweddaru i gyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol diweddaraf ac i wella effeithlonrwydd, tryloywder, ac atebolrwydd caffael.

6 O dan delerau'r cylch gorchwyl, mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gynnal trosolwg o'r Rheolau Gweithdrefn Contract a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

## NEWIDIADAU ALLWEDDOL

7 Mae'r CPR diweddarwyd wedi cael sawl newid sylweddol ers y fersiwn ddiwethaf a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r Ddeddf Caffael 2023 ac i wella effeithlonrwydd, tryloywder, ac atebolrwydd y broses gaffael.

8 Un o'r diweddariadau allweddol i'w nodi yw'r newidiadau i'r trothwyon ar gyfer dyfynbrisiau a thendr. Nod y newidiadau hyn yw darparu canllawiau cliriach a gwella'r broses gaffael fel y gwelir isod:

| Gwerth Contract | Arfaethedig |
|---|---|
| Pob Contract | Defnyddio Gytundeb Prynu Corfforaethol os yw ar gael; rhaid anfon archeb brynu trwy'r ateb prynu-i-dalu. |
| Hyd at £30,000 | Disgresiwn y Swyddog Perthnasol i gael un dyfynbris ond rhaid dangos y Cynnig Mwyaf Manteisiol (gwerth am arian). |
| £30,000 - £119,000 | Cael dyfynbrisiau ffurfiol trwy GwerthwchiGymru (Sell2Wales) os nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael. |
| £120,000 – Trothwy WTO GPA | Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro trwy GwerthwchiGymru os nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael. |
| Dros Trothwy WTO GPA | Gwahodd tendrau gyda hysbysebion priodol ar GwerthwchiGymru os nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael. |

9 Mae sawl newid terminoleg wedi'u gwneud i'r CPR, gyda'r prif ddiweddariadau yn cynnwys, mae'r term "Tendr Mwyaf Economaidd Fanteisiol" wedi'i newid i "Tendr Mwyaf Fanteisiol," ac mae "Gwerth am arian" bellach yn cael ei alw'n "Cynnig Mwyaf Fanteisiol."

10 Mae'r CPR wedi'i ddiweddaru hefyd yn cyflwyno darpariaethau newydd ar gyfer cynllunio caffael, caffael cynaliadwy, a diogelu. Mae'r rheolau bellach yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried materion cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol wrth osod meini prawf gwerthuso tendrau.

11 Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau o fewn y broses gaffael hefyd wedi'u haddasu. Mae'r cyfrifoldebau a oedd yn flaenorol yn nwylo'r Swyddog Monitro wedi'u trosglwyddo i'r Tîm Caffael. Yn ogystal, mae gofyniad newydd i geisio cyngor cyfreithiol ar gyfer rhai gweithgareddau caffael, gan sicrhau bod yr holl weithdrefnau'n cydymffurfio â'r rheoliadau newydd.

12 Diweddariad arall yw cyflwyno cyflwyniadau electronig ar gyfer tendrau. Mae'r newid hwn yn dileu'r angen am amlenni wedi'u selio ac yn symleiddio'r broses dendro. Mae'n ofynnol bellach i Wahoddiadau i Dendro gael eu cyhoeddi trwy Sell2Wales, gan wella tryloywder ac effeithlonrwydd y broses gaffael ymhellach.

13 Yn olaf, mae amryw o newidiadau geiriol a strwythurol bach wedi'u gwneud ledled y ddogfen i wella eglurder a chysondeb. Ychwanegwyd adran fanwl rheoli fersiynau i olrhain newidiadau a nodi'r unigolion sy'n gyfrifol am y newidiadau hynny.

**CAMAU NESAF**

14 Unwaith y bydd yr Awdurdod wedi cymeradwyo, bydd adolygiad ffurfiol o'r CPR yn cael ei gynnal bob tair blynedd. Yn y cyfamser, bydd y Tîm Caffael a'r ACFO (Cyllid ac Adnoddau) yn monitro'n barhaus ac yn gweithredu unrhyw newidiadau bach sy'n angenrheidiol i gynnal uniondeb y CPR.

15 Bydd sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu i swyddogion a'u timau i'w cyfarwyddo â'r CPR diweddarwyd a sicrhau cydymffurfiad â'r rheoliadau newydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan sicrhau bod gweithgareddau caffael yn diwallu anghenion presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae hyn yn cynnwys ystyried materion cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol wrth osod meini prawf gwerthuso tendrau. |
| Cyllideb | Cyn ymgymryd ag unrhyw ymarfer caffael, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod cyllideb gymeradwy ar gyfer y gwariant. Rhaid amcangyfrif a chofnodi cyfanswm cost ddisgwyliedig contract arfaethedig, gan gynnwys unrhyw estyniadau a chostau ategol. |
| Cyfreithiol | Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cydymffurfio â'r holl ddarpariaethau statudol perthnasol, cyfraith y DU, a rheolau caffael cyhoeddus. Rhaid ceisio cyngor cyfreithiol cyn terfynu unrhyw gontract yn gynnar, a rhaid i'r holl gontractau fod yn ysgrifenedig ac yn cael eu gweithredu o dan sêl os oes angen yn ôl y gyfraith. |
| Staffio | I gydymffurfio â Deddf Caffael 2023, mae swyddog caffael yn cael ei recriwtio. Bydd y swydd hon hefyd yn cefnogi addysg swyddogion a'u timau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Rhaid i'r Awdurdod ystyried materion cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol wrth osod meini prawf gwerthuso tendrau. Nid oes unrhyw niwed i Gydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg. |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Rheolau Gweithdrefn Contractau

Ar ôl ei hargraffu, mae hon yn ddogfen na ellir ei rheoli.
Mae'r holl ddefnyddwyr yn gyfrifol am wirio i gadarnhau
mai dyma'r fersiwn gyfredol cyn ei defnyddio.

DRAFT

## Cyflwyniad

Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yw darparu methodoleg ar gyfer caffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a sicrhau bod y gweithdrefnau perthnasol yn effeithlon ac yn dryloyw ac yn darparu system o fod yn agored ac yn atebol. Mae'r safonau uchaf o ran cywirdeb yn ofynnol gan yr holl Swyddogion ac aelodau sy'n ymwneud â chaffael, dyfarnu a rheoli Contractau'r Awdurdod.

Bydd unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn cael eu cyfeirio at y Tîm Caffael.

## Rheoli'r Fersiwn

| Fersiwn | Dyddiad | Disgrifiad o'r newid/iadau | gan |
|---|---|---|---|
| 0.1 | 26/02/2025 | Cyhoeddi drafft cychwynnol i'w adolygu gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael. | Jack Millward |
| 0.2 | 27/02/2025 | Mân addasiadau yn dilyn adolygiad y Pennaeth Cyllid | Elgan Roberts |
| 1.0 | 06/03/2025 | Cyhoeddi fersiwn wedi'i gwblhau i'w gynnwys gyda Phapurau SLT Ffurfiol | Jack Millward |
| 1.1 | | | |
| 2.0 | 17/03/2025 | Cyhoeddi fersiwn terfynol i'w gynnwys gyda Phapurau'r Pwyllgor Archwilio | Elgan Roberts |
| | | | |

Adolygiad ffurfiol i'w gynnal bob 3 blynedd o'i gyhoeddi.

DRAFT

**CYNNWYS**


**Cyffredinol**

1. Dehongliad
2. Cydymffurfio â Rheolau a Deddfwriaeth Gweithdrefn Contractau
3. Dyletswyddau Swyddogion Cyfrifol ac Aelodau
4. Datganiadau o Fuddiannau
5. Cynllun Dirprwyo
6. Atebion Caffael Electronig
7. Cytundebau Prynu Corfforaethol a Chytundebau Prynu Dynamig
8. Defnyddio Ymgynghorwyr

**Cynllunio Caffael**

9. Angen Prynu a Chymeradwyo Cynlluniau Caffael
10. Penderfynu ar Werth y contract
11. Ymholiadau Cyn tendro
12. Caffael a Diogelu Cynaliadwy

**Esemptiadau**

13. Contractau Esempt
14. Esemptiadau o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau

**Rhestr Gymeradwy**

15. Rhestr Gymeradwy'r Awdurdod
16. Dileu Contractwr o Restr Gymeradwy

**Dyfynbrisiau a Thendro**

17. Gofynion ar gyfer Pob Contract
18. Contractau sy'n Werth llai na £30,000 (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)
19. Contractau sy'n Werth rhwng £30,000 a £119,000 (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)
20. Contractau sy'n Werth rhwng £120,000 a Throthwy GPA y WTO (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)
21. Contractau sy'n Werth mwy na Throthwy GPA y WTO (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)
22. Dogfennau Cais am Ddyfynbrisiau a Gwahoddiad i Dendro
23. Manylebau Tendr
24. Eglurhad wrth Gynnig am Dendr
25. Cyflwyno Tendr
26. Agor Tendr
27. Tendrau a Dderbynnir yn Hwyr
28. Gwerthuso Tendr
29. Camgymeriadau mewn Tendrau

30. Negodi
31. Dyfarnu Contract
32. Caffael ar y Cyd
33. Cyfnod Segur
34. Hysbysiad o Ddyfarnu Tendr a Cheisiadau Ôl-drafod
35. Gofynion ar ôl Dyfarnu Contract
36. Llythyrau o Fwriad
37. Telerau ac Amodau Contract heb eu Cwblhau

**Math o Gytundeb**

38. Contractau Ysgrifenedig
39. Bondiau, Gwarantau, Iawndal Penodedig ac Eraill
40. Gwarant Rhiant-Gwmni

**Gweithredu Contract**

41. Rheoli Contract
42. Perfformiad Contract
43. Terfynu'r Contract
44. Amrywiadau ac Estyniadau i Gontract
45. Taliadau Contract
46. Aseiniadau a Newyddiad
47. Enwebu Nwyddau neu Gontractwyr neu Gyflenwyr

**Contractau Penodol**

48. Contractau Tir

**Arall**

49. Cadw Ffeiliau Contractau
50. Adolygu a Diwygio'r Rheolau Gweithdrefn Contractau

DRAFT

**CYFFREDINOL**

## 1. Dehongliad

1.1 Yn y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn, yr ystyron canlynol sydd i'r termau canlynol:

| | |
|---|---|
| Rhestr Gymeradwy | Rhestr sy'n cael ei llunio ar gyfer gwasanaethau ac yn cael ei chynnal ganddynt i'w defnyddio o dan Ddeddf Caffael 2023 |
| Achos Busnes | Y broses ar gyfer pwyso a mesur y buddion disgwyliedig gyda chost a risgiau prosiect arfaethedig. |
| Yn Ôl y Gofyn | Contract sy'n cael ei osod gan ddefnyddio Cytundeb Fframwaith lle mae'r telerau'n caniatáu dyfarnu Contract heb fod angen cystadleuaeth fach. |
| Cod Ymddygiad | Y Codau sy'n rheoleiddio ymddygiad Swyddogion ac Aelodau fel y nodir yng nghyfansoddiad yr Awdurdod |
| Buddion Cymunedol | Gofynion cymdeithasol neu economaidd neu amgylcheddol sydd o fudd i'r gymuned o fewn ardal yr Awdurdod |
| Contract | Cytundeb ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau neu gonsesiynau neu gyflawni gwaith |
| Ffeil y Contract | Cofnod o'r holl faterion sy'n ymwneud â'r Contract a'r broses gaffael |
| Contractwr | Cyflenwr nwyddau neu wasanaethau neu gonsesiynau neu waith ar gyfer yr Awdurdod |
| Cofrestr Contractau | Cofrestr o Gontractau sy'n gweithredu ar hyn o bryd o fewn yr Awdurdod |
| Cytundeb Prynu Corfforaethol | Bydd Contract neu Gytundeb Fframwaith sydd wedi'i gymeradwyo a'i ganiatáu i'w ddefnyddio gan y PS, Cyllid ac Adnoddau a'i ddefnydd yn orfodol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau caffael ar y cyd ac aelodaeth o gonsortiwm cynllunio swyddogol |
| Contract | Contract a gwmpesir gan Reoliadau Deddf Caffael 2023 |
| Awdurdod | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |

DRAFT

| | |
|---|---|
| E-Gaffael | Systemau electronig ar gyfer hwyluso a chynnal ymarferiadau caffael |
| Dod o hyd i dendr | Mae'r gwasanaeth yn rheoli tendrau a chontractau y mae, neu y bydd, eu gwariant cyffredinol yn uwch na'r trothwyon caffael cyhoeddus presennol. |
| Cytundeb Fframwaith | Cytundeb sy'n caniatáu i Swyddog Cyfrifol greu Contract yn Ôl y Gofyn neu ymgymryd â chystadleuaeth fach i ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu waith yn unol â thelerau'r cytundeb. Mae'r Cytundeb Fframwaith fel arfer yn gynnig nad yw'n rhwymol a heb unrhyw rwymedigaethau i Gontract Yn Ôl y Gofyn gyda'r Contractwr. Os bydd yr Awdurdod eisiau Contract yn Ôl y Gofyn gan y Contractwr, daw Contract rhwymol i fodolaeth. |
| CCLl | Cytundeb Caffael y Llywodraeth |
| Prif Swyddog Tân (PST) | Cyfrifoldeb cyffredinol am bob ardal o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Prif Swyddog (PS) | Yn gyfrifol am ardaloedd penodol o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Gwahoddiad i Dendro | Dogfennau Gwahoddiad i Dendro yn y ffurf sy'n ofynnol gan y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn |
| Aelod(au) | Aelod o'r Awdurdod |
| Swyddog Monitro | Y Swyddog a ddynodwyd gan yr Awdurdod fel ei Swyddog Monitro statudol o bryd i'w gilydd |
| Mis | Mis calendr |
| Tendr Mwyaf Manteisiol | Y tendr sydd fwyaf manteisiol i'r Awdurdod yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris ac ansawdd |
| Trothwyon Caffael Cyhoeddus | Trothwyon a bennir gan Gytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a adolygir bob 2 flynedd. |
| Dyfynbris | Dyfyniad pris ac unrhyw fater perthnasol arall a wneir heb gyflwyno Gwahoddiad ffurfiol i Dendro |
| PS Perthnasol | Y Prif Swyddog y mae ei adran yn gyfrifol am yr ymarferiad caffael dan sylw |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyfrifol | Unrhyw aelod staff neu ymgynghorydd parhaol neu dros dro neu unrhyw berson arall sydd wedi'i awdurdodi'n briodol gan yr Awdurdod i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau Contractau'r Awdurdod |
| Swyddog Adran 151 | Y swyddog a ddynodwyd gan yr Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 |
| Tendr | Cynnig ffurfiol Contractwr a gyflwynir mewn ymateb i Wahoddiad i Dendro |
| Tendrwr | Contractwr a wahoddir i gyflwyno Tendr ar gyfer darparu gwaith, gwasanaethau, nwyddau neu gonsesiynau i'r Awdurdod |
| Gwerth am Arian | Y cyfuniad gorau o gostau bywyd cyfan, ansawdd a manteision i fodloni gofynion yr Awdurdod. Mae term o'r fath yn cyfateb i ofyniad caffael GPA y WTO o'r "cynnig mwyaf manteisiol" |
| Diwrnod Gwaith | Unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn neu ddydd Sul neu ddiwrnod sy'n ŵyl y banc neu'n ŵyl gyhoeddus ledled Cymru |
| WTO | Sefydliad Masnach y Byd (World Trade Organisation) |

1.2 Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a'r lluosog yn cynnwys yr unigol.

1.3 Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at y rhyw arall.

1.4 Gall unrhyw gyfeiriad at gamau gweithredu o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn hefyd gael ei wneud gan Swyddogion Cyfrifol gyda'r awdurdod dirprwyedig priodol i gyflawni tasgau o'r fath.

1.5 O dan y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn, mae cyfnodau a fynegir fel nifer penodol o ddiwrnodau ers digwyddiad penodol yn rhedeg o'r diwrnod yn dilyn yr un y cynhelir y digwyddiad arno. Os yw diwrnod olaf y cyfnod yn disgyn ar ddydd Sadwrn, dydd Sul neu ŵyl y banc neu ŵyl gyhoeddus, bydd yn dod i ben ar y diwrnod gwaith nesaf.

1.6 Bydd y cyfnodau'n cynnwys gwyliau cyhoeddus a phenwythnosau oni bai bod y rhain wedi'u heithrio'n benodol neu os mynegir y cyfnodau fel nifer penodol o ddiwrnodau gwaith.

DRAFT

## 2. Cydymffurfio â Rheolau a Deddfwriaeth Gweithdrefn Contractau

2.1 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn berthnasol i bob Contract yr ymrwymir iddo gan neu ar ran yr Awdurdod.

2.2 Bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau), Swyddog Monitro neu Swyddog Adran 151 yn cynghori ar weithredu a dehongli Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Awdurdod.

2.3 Bydd pob Contract yr ymrwymir iddo gan yr Awdurdod neu ar ei ran yn cael ei ymrwymo iddo yn unol neu'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod a bydd yn cydymffurfio â:

2.3.1 yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;

2.3.2 cyfraith berthnasol y DU a rheolau caffael cyhoeddus y DU a Chymru;

2.3.3 cyfansoddiad yr Awdurdod gan gynnwys y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn a Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod.

2.3.4 cynlluniau dirprwyo;

2.3.5 amcanion a pholisïau strategol yr Awdurdod;

2.3.6 y ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

2.4 Os bydd gwrthdaro rhwng darpariaethau Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Awdurdod ac unrhyw ddarpariaeth o gyfarwyddeb yn y DU neu unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig, y gyfarwyddeb neu'r ddeddfwriaeth fydd yn drech.

2.5 Rhaid i bob swyddog cyfrifol gydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contractau a Rheoliadau Ariannol yr awdurdod. Ni ddylai swyddogion eraill ymrwymo i Gontractau ar ran yr Awdurdod.

2.6 Gall unrhyw fethiant gan Swyddog Cyfrifol i gydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn neu Reoliadau Ariannol yr Awdurdod neu ganllawiau cysylltiedig a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod neu unrhyw ofynion cyfreithiol yn y DU arwain at gamau disgyblu.

2.7 Bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn gan Swyddogion Cyfrifol yn cael ei adrodd ar unwaith i'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau).

2.8 Bydd unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn gan Aelodau yn cael ei adrodd ar unwaith i'r Swyddog Monitro.

## 3. Dyletswyddau Swyddogion Cyfrifol ac Aelodau

3.1 Mae'r safonau uchaf o ran cywirdeb yn ofynnol gan yr holl Swyddogion Cyfrifol ac aelodau sy'n ymwneud â chaffael, dyfarnu a rheoli Contractau'r Awdurdod.



DRAFT

3.2 Bydd Swyddogion Cyfrifol bob amser yn:

3.2.1 ceisio’r gwerth gorau am arian;

3.2.2 dangos dim ffafraeth amhriodol i unrhyw Gontractwr neu Dendrwr, nac yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw Gontractwr neu Dendrwr;

3.2.3 sicrhau bod yr holl gaffael yn digwydd yn unol â'r safonau uchaf o briodoldeb ac arfer priodol (gan gynnwys parchu cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol);

3.2.4 gwneud dim sy'n mynd yn groes i gyfraith ddomestig y DU;

3.2.5 sicrhau bod ffeiliau Contract digonol yn cael eu cadw ar gyfer Contractau y maent yn ymgysylltu â hwy.

3.3 Rhaid i aelodau a swyddogion gydymffurfio â pholisi a phrosesau'r Awdurdod mewn perthynas ag anrhegion a lletygarwch. Fel rheol gyffredinol, ni ddylid derbyn cynigion o anrhegion neu letygarwch heb awdurdod ysgrifenedig y PST neu'r SP perthnasol. Mae hyn yn cynnwys cynigion gan Gontractwyr, Tendrwyr neu unrhyw gwmni neu sefydliad y mae'r Awdurdod wedi ymwneud ag ef, yn ymwneud ag ef neu y gallai ymwneud ag ef mewn unrhyw ffordd. Efallai y bydd aelodau’r Awdurdod yn dymuno trafod y cynnig o rodd neu letygarwch gyda’r swyddog monitro / clerc.

3.4 Bydd yr aelodau’n cydymffurfio â'r cod ymddygiad i aelodau.

3.5 Bydd y Swyddogion Cyfrifol yn cydymffurfio â chod ymddygiad y swyddogion.

3.6 Dylai aelodau a swyddogion ofyn am gyngor gan y Tîm Caffael mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n codi o'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn pryd bynnag y bydd unrhyw amheuaeth ynghylch y weithdrefn gywir.

## 4. Datganiadau o Fuddiannau

4.1 Ni chaiff unrhyw Aelod, swyddog neu asiant yr Awdurdod ddefnyddio'u swydd yn amhriodol i gael unrhyw fudd personol neu breifat o unrhyw Gontract yr ymrwymir iddo gan yr Awdurdod.

4.2 Bydd y canlynol yn datgan unrhyw fuddiannau a allai effeithio ar broses y Contract:

4.2.1 pob Swyddog Cyfrifol sy'n chwarae unrhyw ran yn y broses gaffael, gan gynnwys y rhai a ddynodwyd o dan gynllun dirprwyo fel yn Rheol Gweithdrefn Contractau 5.3;

4.2.2 aelodau sy'n ymwneud â'r broses gaffael; neu

4.2.3 ymgynghorwyr allanol.

DRAFT

4.3 Bydd y PST neu’r PS cyfrifol yn sicrhau bod aelodau, swyddogion, ymgynghorwyr neu unrhyw un arall nad yw'n swyddog yn yr Awdurdod a benodir neu a gytunwyd ganddynt yn gwneud datganiadau ar eu penodiad ac ar unrhyw newid mewn amgylchiadau (ac yn flynyddol yn achos swyddogion), a bydd naill ai'n eu hardystio fel rhai derbyniol neu’n cymryd unrhyw gamau angenrheidiol mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau posibl. Bydd Swyddogion Cyfrifol yn cadw datganiadau ymgynghorwyr wedi'u cwblhau ar ffeil y Contract.

4.4 Rhaid i bob aelod a Swyddog Cyfrifol lenwi ffurflen datgan buddiannau, y mae'n rhaid ei chymeradwyo'n briodol yn unol â pholisi datgan buddiannau'r Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn cadw cofrestr o ddatganiadau sy'n nodi enwau a graddau'r rhai sy'n datgan a natur eu datganiad.

## 5. Cynllun Dirprwyo

5.1 Bydd yr Awdurdod yn cynnal cynllun dirprwyo sy'n nodi'r terfynau dirprwyedig ar gyfer Prif Swyddogion a Swyddogion Cyfrifol. Rhaid i Swyddogion Cyfrifol weithredu o fewn terfynau dirprwyedig wrth ymrwymo i Gontract ar ran yr Awdurdod.

5.2 Bydd pob PS yn llunio a chynnal cynllun dirprwyo sy'n benodol i'w wasanaeth, gan fanylu ar enwau a graddau'r Swyddogion Cyfrifol a gymeradwywyd at ddibenion cael dyfynbrisiau, tendro, mynd i mewn i gontractau a chreu archebion ar ran yr awdurdod ac uchafswm gwerth y contract neu’r gorchymyn a ddyrannwyd i bob Swyddog Cyfrifol at y dibenion hyn.

5.3 Rhaid i bob PS ddarparu cynllun dirprwyo i'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac ar wneud unrhyw welliant.

5.4 Bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) yn cadw cofrestr o'r holl gynlluniau dirprwyo a bydd yn sicrhau bod y cynllun dirprwyo priodol yn cael ei ailadrodd o fewn yr ateb prynu-i-dalu (ar gyfer archebu, derbynebau a thalu).

## 6. Atebion Caffael Electronig

6.1 Bydd yr holl brosesau prynu-i-dalu gan gynnwys cyfrifo, archebu, derbynebau a thalu anfonebau’n cael eu gwneud trwy'r ateb prynu-i-dalu corfforaethol.

## 7. Cytundebau Prynu Corfforaethol a Chytundebau Prynu Dynamig

7.1 Bydd defnydd o'r Cytundebau Prynu Corfforaethol canlynol fel y'u cymeradwyir gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) yn orfodol, oni bai bod cyfiawnhad dros beidio â'u defnyddio wedi'i roi’n ysgrifenedig ac wedi'i gymeradwyo gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau):

7.1.1 Cytundebau prynu corfforaethol sy'n deillio o'r CMLlC (Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru) neu unrhyw gonsortiwm prynu swyddogol cymeradwy arall;

7.1.2 Unrhyw Gytundebau Fframwaith eraill ac unrhyw drefniadau Yn Ôl y Gofyn wedi hynny; a

7.1.3 Trefniadau caffael ar y cyd.

7.2 Bydd unrhyw aelodaeth o gonsortiwm prynu swyddogol sy'n gofyn am ymrwymiad yr Awdurdod ymlaen llaw yn cael ei gymeradwyo gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) cyn i'r Awdurdod gymryd rhan neu cyn bod hynny'n digwydd ar ei ran.

**8. Defnyddio Ymgynghorwyr**

8.1 Mae'n rhaid i'r defnydd o ymgynghorwyr gael ei gymeradwyo, yn y lle cyntaf, gan y PS Perthnasol a bydd cymeradwyaeth o'r fath yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr Contractau gorfforaethol.

8.2 Wrth gyfrifo amcangyfrif o werth y Contract, rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw waith dilynol a allai ddeillio o'r Contract gwreiddiol. Lle cynigir bod ymgynghorwyr yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod, bydd y PS Perthnasol yn sicrhau bod:

8.2.1 yr angen wedi'i nodi'n glir. Yn benodol, rhaid ystyried a oes adnoddau mewnol ar gael cyn ceisio cyflogi ymgynghorwyr allanol;

8.2.2 cyllideb wedi'i chytuno:

8.2.3 briff prosiect wedi'i baratoi;

8.2.4 Contractau yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn, oni bai bod RhGC 14 yn berthnasol;

8.2.5 meini prawf cynhwysfawr wedi'u gosod y bydd cynigion yn cael eu gwerthuso yn eu herbyn;

8.2.6 penderfyniad dethol wedi'i gofnodi'n glir;

8.2.7 cytundeb ffurfiol neu lythyr ymgysylltu manwl yn cael ei baratoi a'i lofnodi;

8.2.8 taliadau ffioedd a chynnydd yn cael eu monitro;

8.2.9 mae ffeil Contract manwl yn cael ei gadw;

8.2.10 perfformiad yn cael ei adolygu a gwaith monitro ac adrodd digonol ynghylch rheoli ar waith, gan gynnwys gweithredu unrhyw argymhellion a wneir gan ymgynghorwyr;

8.2.11 gofyniad clir i drosglwyddo gwybodaeth a sgiliau gan yr ymgynghorydd i staff mewnol;

8.2.12 datgan unrhyw fuddiannau a allai effeithio ar broses y Contract:

8.3 Bydd yn ofynnol i ymgynghorwyr ddarparu tystiolaeth o bolisïau indemniad proffesiynol a'u cynnal er boddhad y PS perthnasol am y cyfnodau a bennir yn y cytundeb priodol. Ni fydd y swm dros ben ar gyfer unrhyw un hawliad yn fwy na £20,000 ac eithrio gyda chymeradwyaeth y PSTC (Cyllid ac Adnoddau).

8.4 Ar gyfer cyflogi staff allanol technegol fel penseiri, syrfewyr, peirianwyr a chyfreithwyr, bydd y PS Perthnasol yn adolygu lefel y defnydd o staff allanol o'r fath bob blwyddyn.

8.5 Os penodir ymgynghorwyr neu staff allanol technegol fel penseiri, syrfewyr, peirianwyr neu gyfreithwyr i fod yn gyfrifol am oruchwylio Contract ar ran yr Awdurdod, amod eu penodi yw y byddant yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol yr Awdurdod mewn perthynas â'r Contract hwnnw fel pe baent yn swyddog i'r Awdurdod ac y byddant, ar ôl cwblhau'r Contract, yn cyflwyno'r holl gofnodion perthnasol i'r PS perthnasol.

## CYNLLUNIO CAFFAEL

### 9. Angen Prynu a Chymeradwyo Cynlluniau Caffael

9.1 Bydd y PS Perthnasol, ar ôl sefydlu a nodi’r angen i brynu, yn enwebu Swyddog Cyfrifol i asesu'r angen prynu yn llawn.

9.2 Cyn cynnal ymarferiad caffael, bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod proses cynllunio busnes yr awdurdod yn cael ei dilyn. Mae'r broses hon yn cynnwys cynnal ymarferiad cwmpasu priodol ar y gofynion nwyddau/gwasanaeth, gan sicrhau bod cyllideb gymeradwy ar gyfer gwariant o'r fath a bod y llwybr i'r farchnad yn cydymffurfio â'r rheolau gweithdrefn hyn.

### 10. Penderfynu ar Werth y Contract

10.1 Cyn cynnal unrhyw ymarfer caffael, bydd y Swyddog Cyfrifol yn amcangyfrif ac yn cofnodi cyfanswm cost ddisgwyliedig Contract arfaethedig, gan gynnwys unrhyw estyniadau i’r Contract, costau atodol neu ychwanegol net o TAW adenilladwy dros gyfnod llawn y Contract. Ar gyfer Contractau Adeiladu rhaid i'r amcan bris gael ei gynhyrchu gan swyddog cymwys priodol.

10.2 Pan nad yw Contract gwasanaeth neu gyflenwi yn nodi cyfanswm y pris, bydd y gwerth yn cael ei amcangyfrif fel a ganlyn:

10.2.1 Contractau gwasanaeth cyfnod penodol o hyd at 48 mis: cyfanswm cydnabyddiaeth yn daladwy dros y tymor;



DRAFT

10.2.2 Contractau neu Gontractau gwasanaeth ar gyfer llogi nwyddau am gyfnod amhenodol neu ansicr neu am gyfnod penodol o fwy na 48 mis; cydnabyddiaeth yn daladwy mewn perthynas â phob mis wedi'i luosi â 48.

10.3 Amcangyfrifir gwerth gwasanaeth neu gontractau cyflenwi rheolaidd neu adnewyddadwy naill ai:

10.3.1 drwy gydgasglu gwerth Contractau tebyg ar gyfer yr un categorïau o wasanaethau neu gyflenwadau a ddyfarnwyd gan yr Awdurdod dros y flwyddyn ariannol flaenorol neu 12 mis, wedi'u haddasu lle bo'n bosibl ar gyfer newidiadau disgwyliedig mewn maint neu werth dros y 12 mis nesaf; neu

10.3.2 drwy gymryd yr amcan werth cyfanredol yn ystod y 12 mis ar ôl i'r cyflenwad neu'r gwasanaeth cyntaf gael ei gyflawni, neu yn ystod tymor y Contract lle mae hyn yn fwy na 12 mis.

10.4 Ni ellir rhannu Contract yn artiffisial, na dewis dull prisio gyda'r bwriad o osgoi unrhyw gymalau o fewn y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn. Bydd Contractau'n cael eu pecynnu i sicrhau'r ddarpariaeth gwasanaeth, y gystadleuaeth a'r gwerth am arian gorau.

10.5 Pan fo gofyniad prynu yn cael ei isrannu'n nifer o Gontractau llai, bydd amcan werth pob un yn cael ei gyfuno i amcangyfrif cyfanswm gwerth y contract. Fodd bynnag, ni fydd angen cyfuno'r canlynol:

10.5.1 unrhyw Gontract gwaith sydd ag amcan werth o lai na'r ddarpariaeth lotiau bach yn y tabl gwerthoedd; neu

10.5.2 unrhyw Gontract gwasanaeth sydd ag amcan werth o lai na'r ddarpariaeth lotiau bach yn y tabl gwerthoedd, ar yr amod bod gwerth cyfanredol yr holl Gontractau llai hynny yn llai nag 20% o gyfanswm gwerth y Contract.

## 11. Ymholiadau Cyn Tendro

11.1 Gellir gwneud ymholiadau i Gontractwyr cyn gwahodd tendrau er mwyn:

11.1.1 sefydlu a yw nwyddau, gwaith neu wasanaethau y mae'r Awdurdod yn dymuno eu prynu ar gael ac o fewn pa amrediad prisiau;

11.1.2 paratoi'r Gwahoddiad i Dendro, amcangyfrifon prisiau a Chontractau;

11.1.3 sefydlu a yw Contractwyr penodol yn dymuno cael eu gwahodd i dendro neu ddarparu dyfynbris.



DRAFT

11.2 Wrth wneud ymholiadau:

11.2.1 ni chaiff unrhyw wybodaeth ei datgelu i un Contractwr nad yw wedyn yn cael ei datgelu i bawb y gwneir ymholiadau iddynt, neu a wahoddir wedyn i gyflwyno tendr neu ddyfynbris;

11.2.2 ni fydd unrhyw Gontractwr yn cael ei arwain i gredu y bydd y wybodaeth y mae'n ei chynnig o reidrwydd yn arwain at wahoddiad iddynt gyflwyno tendr neu ddyfynbris, neu ennill y Contract;

11.2.3 bydd cofnod ysgrifenedig, gan gynnwys nodiadau o unrhyw gyfarfodydd a gynhelir, yr ymatebion ac enwau'r holl unigolion sy'n bresennol yn cael eu cadw gan y Swyddog Cyfrifol ar ffeil y Contract.

**12. Caffael Cynaliadwy a Diogelu**

12.1 Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i weithredu yn unol â'r egwyddor cynaliadwyedd a sicrhau bod hyn yn llywio penderfyniadau. Rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu bodloni heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

12.2 Ar gyfer pob Contract ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, bydd yr Awdurdod yn ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth osod meini prawf gwerthuso'r tendr.

12.3 Ar gyfer pob Contract sy'n fwy na £2,000,000, rhaid i'r Awdurdod ddangos cydymffurfiaeth â gofynion Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru mewn Caffael. Ar gyfer Contractau perthnasol, bydd yn ofynnol i gontractwyr gwblhau'r Pecyn Cymorth Budd-daliadau Cymunedol fel rhan o'u gofynion Contractiol.

**ESEMPTIADAU**

**13. Contractau Esempt**

13.1 Contract Esempt yw un nad yw'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn berthnasol iddo.

13.2 Mae'r Contractau canlynol wedi'u heithrio o ofynion y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn:

13.2.1 Contractau cyflogaeth;

13.2.2 cytundebau sy'n ymwneud â gwaredu neu gaffael buddiant mewn tir yn unig ac eithrio Cytundebau Datblygu (gweler RhGC 52);

13.2.3 prynu neu ddarparu gwasanaethau mewnol;

13.2.4 Contractau ar gyfer cyflogi cyfreithwyr; a

13.2.5 Contractau ar gyfer tyst arbenigol.

**14. Esemptiadau o’r Rheolau Gweithdrefn Contractau**

14.2 Ar gyfer Contractau ac eithrio’r rhai a nodir o dan RhGC 13, gall Swyddog Cyfrifol geisio esemptiad o weithredu’r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn mewn amgylchiadau eithriadol.

14.3 Dim ond gydag un Contractwr y bydd Contract yn cael ei drafod pan fo'r Awdurdod wedi ystyried yr holl amgylchiadau ac yn penderfynu bod cwrs o'r fath yn ddymunol er budd y cyhoedd. Dim ond ar ôl i'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) ei ystyried y gwneir penderfyniad o'r fath ar y cyd â'r Swyddog Monitro lle bo hynny'n briodol. Gall yr amgylchiadau gynnwys:

14.3.1 lle gall y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau ond gael eu darparu gan Gontractwr penodol am resymau technegol neu sy'n gysylltiedig â diogelu hawliau unigryw;

14.3.2 brys a achoswyd gan ddigwyddiadau na ellir eu rhagweld gan yr Awdurdod ac yn unol â'r amodau llym a nodir yn Rheoliadau Deddf Caffael 2023;

14.3.3 mae angen nwyddau fel amnewid rhannol neu ychwanegiad at nwyddau neu osodiadau presennol a byddai eu cael gan Gontractwr arall yn arwain at anghydnawsedd neu anawsterau technegol anghymesur wrth weithredu neu gynnal a chadw;

14.4 Ni ellir rhoi unrhyw esemptiadau a fyddai'n arwain at dorri cyfraith ddomestig y DU.

14.5 Bydd cofrestr o esemptiadau cymeradwy yn cael ei chadw.

**RHESTR GYMERADWY**

**15. Rhestr Gymeradwy’r Awdurdod**

15.1 Gellir sefydlu rhestrau cymeradwy ar gyfer rhai mathau o nwyddau, gwaith a chontractau gwasanaeth. Yn gyffredinol, bydd y rhain ar gyfer pryniannau amledd uchel gwerth isel.

15.2 Rhaid ceisio cymeradwyaeth y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) cyn sefydlu neu fabwysiadu Rhestr Gymeradwy.

15.3 Bydd Rhestrau Cymeradwy’r Awdurdod yn:

15.3.1 nodi a yw'r Contractwyr a restrir wedi eu cymeradwyo ar gyfer pob Contract, neu ar gyfer rhai o'r categorïau, gwerthoedd neu symiau penodedig yn unig;

15.3.2 cael eu hysbysebu a'u hadolygu'n gyhoeddus yn llawn bob pedair blynedd o leiaf. O leiaf, rhaid cyhoeddi hysbyseb gyhoeddus ar wefan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GwerthwchiGymru);

15.3.3 agored i dderbyn datganiadau newydd o ddiddordeb gan unrhyw Gontractwr;

15.3.4 rhan o Restr Gymeradwy a baratowyd gan gorff cyhoeddus arall ar yr amod ei bod wedi'i chreu’n briodol gan y corff hwnnw a bod y Swyddog Cyfrifol yn fodlon nad yw'r weithdrefn a ddefnyddir yn gwrthdaro â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

15.4 Gall statws ariannol Contractwyr fod yn destun asesiad ariannol. Pan fo'r PST neu'r PS yn dewis peidio â chydymffurfio â'r terfynau asesu ariannol a gynghorir gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau), rhaid cynnal asesiad risg wedi'i ddogfennu i gefnogi'r penderfyniad.

15.5 Ni fydd Contractwr yn cael ei roi ar Restr Gymeradwy Awdurdod na’i wahodd i dendro os:

15.5.1 yw'n fethdalwr neu'n cael ei ddirwyn i ben neu bod ei faterion yn cael eu gweinyddu gan lys neu ei fod wedi gwneud trefniant gyda chredydwyr neu bod ei weithgareddau busnes wedi’u hatal neu ei fod yn destun achos llys ynghylch unrhyw un o'r materion hyn;

15.5.2 yw’r Contractwr, neu unrhyw un o'i gyfarwyddwyr, wedi ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud ag ymddygiad proffesiynol neu wedi bod yn euog o gamymddwyn proffesiynol difrifol;

15.5.3 nad yw wedi cyflawni rhwymedigaethau sy'n ymwneud â thalu trethi neu gyfraniadau statudol eraill;

15.5.4 yw wedi cam-gynrychioli’n sylfaenol wybodaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod.

15.6 Pan fo Rhestr Gymeradwy ar waith, dim ond pan fydd y Contractwyr i fod yn destun ymarferiad holiadur cyn cymhwyso ar wahân y caniateir ystyried Contractwyr eraill fel rhan o ymarferiad caffael penodol.

15.7 Mae'n rhaid i Swyddogion Cyfrifol sicrhau bod proses o wirio a dilysu parhaus ar waith mewn perthynas â Chontractwyr sydd ar Restrau Cymeradwy neu Gytundebau Fframwaith neu sydd â Chontract ar waith. Bydd materion a fydd yn destun dilysiad yn cynnwys statws ariannol (gweler RhGC 15.6), lefel yswiriant (gan gynnwys unrhyw eithriadau polisi), achrediadau, lefel erlyniadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall a allai fod yn destun newid neu adnewyddu.

DRAFT

## 16. Dileu Contractwr o Restr Gymeradwy

16.1 Gall y PS Perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau), atal Contractwr ar unwaith o Restr Gymeradwy, Cytundeb Fframwaith, cytundeb prynu deinamig neu (mewn amgylchiadau eithriadol) Contract, pryd bynnag y bydd pryderon sylweddol ynghylch statws ariannol neu allu technegol y Contractwr neu ei gydymffurfiad â gofynion iechyd a diogelwch.

16.2 Rhaid cynnal ymchwiliadau i'r Contractwr ar unwaith. Os cadarnheir yr amheuon, rhaid tynnu'r Contractwr oddi ar y Rhestr Gymeradwy, y Cytundeb Fframwaith neu'r cytundeb prynu deinamig. Os yw'r amheuon yn cael eu tawelu, rhaid i'r PS Perthnasol adfer y Contractwr i'r rhestr neu gytundeb ar unwaith.

16.3 Gellir dileu Contractwr o Restr Gymeradwy, Cytundeb Fframwaith os yw'r PS perthnasol o'r farn bod y Contractwr neu ei staff wedi torri safonau ymddygiad sy'n berthnasol i natur y gwaith a gyflawnir gan y Contractwr. Gellir cymryd camau o dan y paragraff hwn hyd yn oed os nad oes amheuon ynghylch statws ariannol neu allu technegol y Contractwr.

16.4 Os bydd Contractwr yn cael ei dynnu oddi ar Restr Gymeradwy neu Gytundeb Fframwaith bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad.

16.5 Bydd gan Gontractwr sydd wedi'i dynnu oddi ar Restr Gymeradwy neu Gytundeb Fframwaith yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad o fewn 7 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr yn ei hysbysu eu fod wedi cael ei ddileu.

16.6 Bydd unrhyw apêl yn cael ei chlywed gan y Tîm Caffael a'r Swyddog Adran 151.

## DULLIAU CAFFAEL

## 17. Gofynion ar gyfer Pob Contract

17.1 Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan weithredol mewn cytundebau a threfniadau cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys cytundebau caffael ar y cyd i sicrhau arbedion maint a'r defnydd o fframweithiau caffael sector cyhoeddus.

17.2 Rhaid ystyried math o drefniant a elwir yn Gytundeb Prynu Corfforaethol yn y lle cyntaf. Os bydd yn ei le bydd gorchymyn yn cael ei roi o dan y Cytundeb Prynu Corfforaethol yn unol â hynny.

17.2 Rhaid anfon gorchymyn prynu drwy'r ateb prynu-i-dalu ar ôl dyfarnu'r Contract.

## 18. Contractau sy'n Werth hyd at £30,000 (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)

18.1 Bydd yr angen i gael un dyfynbris yn dibynnu ar ddisgresiwn y Swyddogion Perthnasol er nad yw hyn yn rhyddhau'r Swyddog Perthnasol o'r cyfrifoldeb i ddangos bod gwerth am arian wedi'i sicrhau.

## 19. Contractau sy'n Werth rhwng £30,000 a £119,000 (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)

19.1 Lle nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol ddilyn y gofynion tendro a chael dyfynbrisiau ffurfiol drwy GwerthwchiGymru.

## 20. Contractau Gwerth rhwng £120,000 a Throthwy Cytundeb Caffael (GPA) Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd (WTO) (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)

20.1 Lle nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol ddilyn y gofynion tendro a chyflwyno hysbyseb Gwahoddiad i Dendro drwy GwerthwchiGymru.

## 21. Contractau sy'n Werth mwy na Throthwy GPA y WTO (Nwyddau, Gwaith a Gwasanaethau)

21.1 Lle nad oes Cytundeb Prynu Corfforaethol ar gael, bydd y Swyddog Cyfrifol yn gwahodd tendrau gyda hysbysebion priodol ar GwerthwchiGymru.

## 22. Dogfennau Cais am Ddyfynbrisiau a Gwahoddiad i Dendro

22.1 Bydd y Gwahoddiad i Dendro a'r holl ddogfennau caffael eraill (gan gynnwys ceisiadau am ddyfynbrisiau, holiaduron cyn cymhwyso a llythyrau dyfarnu Contract) a ddefnyddir yn cydymffurfio â'r dogfennau safonol corfforaethol.

22.2 Bydd pob set o ddogfennau caffael yn nodi natur a phwrpas y Contract y gwahoddir tendrau ar ei gyfer, yn nodi'r dyddiad a'r amser olaf pan dderbynnir tendrau ac yn datgan bod yr Awdurdod yn cadw'r hawl i beidio â derbyn unrhyw dendr neu dderbyn tendr heblaw'r isaf lle mae'r Awdurdod i wneud taliad neu'r uchaf lle mae'r Awdurdod i dderbyn taliad.

22.3 Rhaid i'r Gwahoddiad i Dendro gynnwys syniad o'r dull o ddewis y tendr llwyddiannus h.y. sail pris, sail ansawdd neu gyfuniad o bris ac ansawdd (tendr mwyaf manteisiol yn economaidd).

22.4 Rhaid rhoi cyfarwyddiadau i Dendrwyr ynghylch cyflwyno dogfennau sy'n nodi bod yn rhaid derbyn tendrau erbyn yr amser a'r dyddiad a nodir ar y Gwahoddiad i dendro. Rhoddir derbynebau ar gyfer tendrau a gyflwynir â llaw.

22.5 Bydd gofyn i bob Tendrwr gyflwyno datganiad wedi'i lofnodi i'r perwyl nad yw eu pris tendro wedi'i gyfathrebu gydag eraill ar wahân i'r pris a ddatgelir yn gyfrinachol i yswirwyr ac nad ydynt wedi addasu swm unrhyw dendr neu ddyfynbris yn unol ag unrhyw gytundeb neu drefniant rhwng y Tendrwr arfaethedig ac unrhyw berson arall.

## 23. Manylebau Tendr

23.1 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod y Gwahoddiad i Dendro yn pennu ansawdd, perfformiad, diogelwch a nodweddion eraill sy'n ofynnol yn y gwaith neu'r nwyddau neu'r gwasanaethau neu'r cyflenwadau. Gall manylebau gynnwys gofynion sy'n ymwneud â dulliau adeiladu, dylunio a chostio, profion, dulliau profi, arolygu a derbyn, sicrhau ansawdd, pecynnu, marcio a labelu.

23.2 Bydd manylebau technegol yn cael eu diffinio drwy gyfeirio at fanylebau perthnasol, yn y drefn ganlynol: manylebau technegol Prydain, safonau Prydeinig sy'n gweithredu safonau rhyngwladol, safonau Prydeinig a chymeradwyaethau technegol eraill neu unrhyw safonau eraill. Pan fo safon briodol yn gyfredol ar ddyddiad tendro, bydd yr holl waith, nwyddau, gwasanaethau a chyflenwadau o ansawdd cyfartal o leiaf.

23.3 Ni fydd manylebau'n cyfeirio at nwyddau o wneuthuriad neu ffynhonnell penodol oni bai:

23.3.1 ei fod yn cael ei gyfiawnhau gan y gofyniad prynu; neu

23.3.2 ni ellir disgrifio'r gofyniad prynu yn fanwl ac yn ddeallus fel arall, ar yr amod bod y geiriau 'neu gyfwerth' yn cyd-fynd â'r cyfeiriadau.

## 24. Eglurhad wrth Gynnig am Dendr

24.1 Bob amser yn ystod y broses gaffael, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod pob Tendrwr a Chontractwr yn cael eu trin yn gyfartal ac mewn modd sy'n dryloyw ac nad yw'n gwahaniaethu.

24.2 Mae'n rhaid rhoi cyfle i Dendrwyr ofyn cwestiynau i'r Awdurdod mewn perthynas â'r ymarferiad caffael a gofynion y Contract. Pan fydd Tendrwr yn gofyn am eglurhad gan yr Awdurdod cyn cyflwyno tendr, bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod y cwestiwn a'r ymateb mewn perthynas â'r eglurhad yn cael eu dwyn i sylw'r holl Dendrwyr.

24.3 Ar ôl derbyn tendrau, gall y Swyddog Cyfrifol ofyn am eglurhad gan Dendrwyr lle bo hynny'n briodol mewn ymgynghoriad â'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau).

## 25. Cyflwyno Tendr

25.1 Dylai'r egwyddorion sy'n llywodraethu cyflwyno tendrau fod yn berthnasol i gyflwyniadau electronig ac yn cyd-fynd â'r cyfarwyddiadau i'r Tendrwyr a gyhoeddwyd fel rhan o'r Gwahoddiad i Dendro.

25.2 Dylid cyflwyno'r tendr yn electronig yn unol â'r pwnc y mae'n ymwneud ag ef, a bydd yr amodau tendro'n nodi'n glir y diwrnod a'r amser olaf ar gyfer derbyn tendrau.

25.4 Ni fydd unrhyw Swyddog Cyfrifol nac aelod yn cyfathrebu ag unrhyw Dendrwr unwaith y bydd y Gwahoddiad i Dendro wedi'i bostio neu ei gasglu gan y Tendrwr. Ni fydd unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r broses gaffael honno yn cael ei datgelu i unrhyw un nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â threfnu'r Contract, ac eithrio lle bo angen:

25.4.1 i swyddog neu Dendrwr gynnal archwiliad o waith, ac os felly cynigir cyfle cyfartal i bob Tendrwr gynnal archwiliad; neu

25.4.2 i hysbysu Tendrwyr am newid yn y trefniadau caffael, gan gynnwys cyflenwi gwybodaeth ychwanegol neu newid yn yr wybodaeth, ac os felly bydd pob Tendrwr yn cael yr un wybodaeth ar yr un pryd; neu

25.4.3 mewn ymateb i gais am eglurhad.

**26. Agor Tendr**

26.1 Bydd pob tendr yn cael ei agor ar yr un pryd ac yn yr un lle ar ôl yr amser cau ar gyfer derbyn tendrau fel y nodir yn y Gwahoddiad i Dendro neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol wedi hynny.

26.2 Mae gan yr Awdurdod drefniadau ar waith i gofnodi'r manylion canlynol ar gyfer pob tendr:

26.2.1 Y dyddiad a'r amser olaf ar gyfer derbyn tendrau;

26.2.2 Yr amser a'r dyddiad y derbyniwyd y tendr;

26.2.3 Enw pob Tendrwr a, lle bo'n ymarferol, gwerth pob tendr;

26.2.4 Y dyddiad yr agorwyd y tendrau;

26.2.5 Teitl y Contract;

**27. Tendrau a Dderbynnir yn Hwyr**

27.1 Bydd unrhyw dendr a dderbynnir ar ôl yr amser penodedig yn cael ei arnodi gyda'r amser a'r dyddiad derbyn.

27.2 Os yw pob tendr arall wedi ei agor, ni fydd y tendr hwyr yn cael ei ystyried i'w werthuso a dim ond i ganfod enw'r Tendrwr y bydd yn cael ei agor. Ni fydd unrhyw un o fanylion eraill y tendr yn cael eu datgelu. Bydd y Swyddog Cyfrifol yn trefnu i'r tendr gael ei ddychwelyd i'r Tendrwr ar unwaith. Bydd llythyr hysbysu yn egluro pam nad yw'r tendr wedi cael ei ystyried yn cael ei anfon at y Tendrwr.

27.3 Gellir ystyried y tendr hwyr, ar yr amod nad yw'r tendrau eraill wedi'u hagor a bod y Swyddog Monitro neu'r PS perthnasol yn fodlon:

27.3.1 bod tystiolaeth bod y tendr hwyr wedi'i bostio neu ei gyflwyno mewn pryd i gyrraedd erbyn y dyddiad cau dan drefn arferol y gwasanaeth post neu wasanaeth rhyngrwyd; neu

27.3.2 bod amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â chyflwyno'r tendr hwyr.

27.4 Mae unrhyw benderfyniad i'w gofnodi ar ddogfen agor y tendr a dylid cynnwys copi o'r penderfyniad yn y gofrestr.

**28. Gwerthuso Tendr**

28.1 Bydd yr holl dendrau ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu gwerthuso a'u dyfarnu ar sail y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd, a fydd yn cynnwys cyfuniad o feini prawf pris ac ansawdd, oni bai bod eithriad i'r gofyniad hwn wedi'i gymeradwyo gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau).

28.2 Rhaid nodi unrhyw sgôr neu bwysoliad a briodolir i unrhyw feini prawf neu is-feini prawf yn glir yn y Gwahoddiad i dendro. Cedwir yn llym at y meini prawf a byddant yn aros yn ddigyfnewid bob amser trwy gydol y broses werthuso. Rhaid nodi bod datgelu’r meini prawf a’r pwysoliad ar gyfer dyfarnu ymlaen llaw, a chadw atynt, yn ofyniad sylfaenol i'r egwyddor graidd o dryloywder. Mae’r egwyddorion craidd ar gyfer caffael, sef tryloywder, triniaeth gyfartal a pheidio â gwahaniaethu, yn berthnasol i bob proses gaffael.

**29. Camgymeriadau mewn Tendrau**

29.1 Fel rheol gyffredinol, ni chaniateir addasu na chymhwyso unrhyw dendr. Fodd bynnag, gellir mynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn ystod archwilio tendrau. Rhaid i wahoddiadau i dendro nodi'r dull i'w ddefnyddio ar gyfer delio â gwallau mewn tendrau.

29.2 Gall Swyddogion Cyfrifol wahodd Tendrwyr i ddiwygio eu tendr i gywiro gwall(au) rhifyddol dilys. Yn yr achos hwn, ni chaniateir diwygio na goleddfu unrhyw addasiad arall.

29.3 Pan fydd archwiliad o’r tendrau yn datgelu gwallau eraill na nodir yn RhGC 34.2 neu hepgoriadau a fyddai'n effeithio ar ffigur y tendr, rhoddir manylion am wallau o'r fath i'r Tendrwr a chyfle iddynt gadarnhau neu dynnu eu tendr yn ôl.

29.4 Pan ddefnyddir Contract ffurf safonol, bydd y Swyddog Cyfrifol yn ymdrin â gwallau yn unol â'r rheolau sy'n berthnasol i'r math hwnnw o Gontract.

29.5 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod y ffurflenni tendr yn cael eu harchwilio er mwyn nodi unrhyw wallau neu anghysondeb arall sy'n effeithio ar ddilysrwydd y tendr. Pan fo gwerthoedd tendr yn cael eu llunio o fil manwl o feintiau, bydd y Swyddog Cyfrifol hefyd yn craffu ar y bil prisiedig o feintiau sy'n cefnogi'r tendr isaf a dderbynnir ac unrhyw rai eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

29.6 Os bydd Tendrwr yn tynnu'n ôl neu os nad yw tendr wedi'i gywiro bellach yn y safle uchaf, bydd y tendr gan y Tendrwr uchaf nesaf yn y drefn gystadleuol yn cael ei archwilio'n fanylach.

**30. Negodi**

30.1 Pan fydd caffael yn cael ei gynnal yn unol â Rheoliadau Deddf Caffael 2023 drwy naill ai'r gweithdrefnau agored neu gyfyngedig, ni chaniateir unrhyw negodi ar ôl cyflwyno tendr. Gall y Swyddog Cyfrifol ofyn am eglurhad gan Dendrwyr lle bo hynny'n briodol. Nid yw negodi prisiau byth yn cael ei ganiatáu.

30.2 Ar bob adeg yn ystod y broses gaffael (p'un a yw'n ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Caffael 2023 ai peidio), bydd yr Awdurdod yn ystyried ac yn gweithredu egwyddorion peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a thryloywder.

30.3 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl negodi, gan gynnwys nodiadau o'r holl gyfarfodydd ac enwau'r holl unigolion sy'n bresennol a bydd yr holl gyfranogwyr yn eu llofnodi. Dylai o leiaf ddau swyddog fod yn bresennol wrth negodi; mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol lle cynigir ymestyn Contract presennol drwy negodi.

30.4 Pan fo negodi'n arwain at newid sylfaenol i'r fanyleb neu delerau'r Contract, ni ddylid dyfarnu'r Contract a dylid ei ail-dendro.

**31. Dyfarnu Contract**

31.1 Bydd yr Awdurdod ddim ond yn dyfarnu Contract os yw'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian. Gellir dyfarnu tendrau a wahoddir a'u cyflwyno'n briodol yn unol â darpariaethau'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod.

31.2 Mewn perthynas â Chontractau lle penderfynir ymlaen llaw mai'r pris isaf yw'r maen prawf priodol ar gyfer dyfarnu, ni dderbynnir tendr neu ddyfynbris heblaw'r isaf os yw taliad i'w wneud gan yr Awdurdod neu'r uchaf os yw taliad i'w dderbyn gan yr Awdurdod nes bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y PS perthnasol.

DRAFT

## 32. Caffael ar y Cyd

32.1 Rhaid i'r defnydd o unrhyw Gytundebau Fframwaith neu Gontractau ar y Cyd sy'n deillio o ymarferiad caffael sy'n cynnwys cyrff cyhoeddus eraill fel yr awdurdod arweiniol gael ei gymeradwyo gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) cyn eu defnyddio. Gwneir pob cais o'r fath yn ysgrifenedig i'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) ac, unwaith y cânt eu cymeradwyo; bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau y bydd y Cytundeb Fframwaith neu'r Contract ar y Cyd yn cael ei fewnbynnu ar y Gofrestr Contractau Corfforaethol.

32.2 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod Rheolau Gweithdrefn Contractau neu gyfwerth yr awdurdod neu'r sefydliad arweiniol yn dderbyniol i'r Awdurdod a dylid eu dilyn drwy gydol yr ymarferiad caffael a hyd y Contract.32.3 Bydd unrhyw drefniant caffael ar y cyd ag unrhyw sefydliad sector cyhoeddus arall sy'n arwain at ymrwymiad yr Awdurdod i rwymedigaethau Cytundebol ar ran y sefydliadau eraill hynny (heb gynnwys Cytundebau Fframwaith) yn cael ei gymeradwyo gan y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) cyn y cyfnod ymrwymo.

## 33. Cyfnod Segur

33.1 Ni ddylid cyhoeddi llythyrau 'segur' a gyhoeddir fel rhan o'r broses ar gyfer caffael dros drothwy GPA Sefydliad Masnach y Byd o dan Reoliadau Deddf Caffael 2023, neu'n ddewisol fel rhan o unrhyw is broses caffael cyhoeddus, cyn cadarnhau dyfarnu’r Contract.

33.2 Mae'n rhaid cael cyfnod segur gorfodol rhwng cyfleu penderfyniad y dyfarniad i'r holl Dendrwyr a chwblhau’r Contract mewn perthynas â chaffael uwchben trothwy GPA y WTO.  Bydd y cyfnod segur hwn yn para 8 diwrnod gwaith. Lle nad yw diwrnod olaf y cyfnod segur yn ddiwrnod gwaith, caiff y cyfnod segur ei ymestyn i hanner nos ar ddiwedd y diwrnod gwaith nesaf.

33.3 O ran dyfarniadau Contract sy'n cynnwys cystadlaethau bach a gynhelir o fewn Cytundeb Fframwaith neu ddyfarniadau Contract mewn perthynas â chaffael sy’n is na’r trothwy caffael cyhoeddus, nid yw cyfnod segur yn orfodol, ond gellir gosod cyfnod segur gwirfoddol.

## 34. Hysbysiad o Ddyfarnu Tendr a Cheisiadau Ôl-drafod

34.1 Bydd y llythyrau hysbysu sy'n cael eu hanfon at unrhyw Dendrwr a oedd yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus naill ai yn y cyfnod rhag-gymhwyso neu ddyfarnu Contract yn cael eu hanfon yn brydlon unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i wneud. Bydd y Tendrwr aflwyddiannus yn cael gwybod am y rhesymau dros fod yn aflwyddiannus a bydd hefyd yn cael gwybod am nodweddion a manteision cymharol y Contractwr llwyddiannus yn ogystal ag enw'r Contractwr a enillodd y Contract.

## 35. Gofynion ar ôl Dyfarnu Contract

35.1 Yn dilyn cael cymeradwyaeth i ddyfarnu Contract ac os na chafwyd unrhyw heriau cyfreithiol yn ystod y cyfnod 'segur', bydd y Swyddog Cyfrifol yn sicrhau bod pob Contract yn ysgrifenedig yn unol â RhGC 42 a bod gorchymyn prynu yn cael ei gofnodi ar yr ateb prynu-i-dalu (lle bo ar gael), unwaith y bydd y Contract wedi'i lofnodi.

35.2 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn cofnodi'r holl Gontractau a ddyfarnwyd gan eu gwasanaeth ar y gofrestr Contractau corfforaethol ynghyd â'r ateb E-Gafffael (lle bo ar gael).

35.3 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn cyhoeddi hysbysiad dyfarnu Contract ar y porth FT o fewn 30 diwrnod i'r dyfarniad mewn perthynas â Chontract uwchlaw Trothwy GPA y WTO. Bydd y Swyddog Cyfrifol yn cyhoeddi nodyn dyfarnu Contract i'w gyhoeddi ar wefan Llwyfan Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru (GwerthwchiGymru) ar gyfer Contractau GPA o dan drothwy WTO.

## 36. Llythyrau o Fwriad

36.1 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae'n rhaid defnyddio llythyrau o fwriad ar ôl cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Tîm Caffael a dim ond fel a ganlyn y dylid eu defnyddio:

36.1.1 pan fo'n ofynnol i'r Contractwr ddarparu gwasanaethau, nwyddau neu waith cyn i'r Awdurdod dderbyn yn ysgrifenedig yn ffurfiol; neu

36.1.2 lle cytunwyd ar yr holl delerau ac amodau Cytundebol a byddai oedi annerbyniol wrth aros i'r dogfennau Cytundebol gael eu cwblhau.

36.2 Ym mhob achos, lle bo'n briodol, dylid defnyddio llythyrau dyfarnu Contract yn hytrach na llythyr o fwriad.

## 37. Telerau ac Amodau Contract heb eu Cwblhau

37.1 Rhaid i'r Awdurdod bob amser sicrhau bod y telerau a'r amodau wedi cael eu cytuno'n llawn trwy eu cynnwys yn y Gwahoddiad i Dendro a mynnu bod Tendrwyr yn eu derbyn fel rhan o'r broses gaffael.

37.2 Pan na chytunir ar delerau ac amodau'r Contract yn llawn, ni chaniateir i unrhyw Gontractwr ddechrau danfon nwyddau, gwaith na gwasanaethau nes bod yr holl delerau ac amodau wedi'u cytuno a bod llofnod neu gytundeb ysgrifenedig y ddau barti wedi'i sicrhau.

37.3 Ni ddylai Swyddogion Cyfrifol ystyried ymrwymo i Gontract ar delerau ac amodau safonol y Contractwr ei hun o dan unrhyw amgylchiadau na thrafod telerau sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a gynhwysir neu y cyfeirir atynt yn ystod y broses gaffael heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Tîm Caffael ac yn ddarostyngedig i RhGC 31.



DRAFT

**MATH O GYTUNDEB**

**38. Contractau Ysgrifenedig**

38.1 Bydd y contractau canlynol yn ysgrifenedig ac yn cael eu gweithredu o dan sêl:

38.1.1 os yw'r Awdurdod yn dymuno gorfodi'r Contract am fwy na chwe blynedd ar ôl ei ddiwedd;

38.1.2 os yw'r pris a dalwyd neu a dderbyniwyd o dan y Contract yn bris enwol neu os nad oes unrhyw ystyriaeth ac nad yw'n adlewyrchu gwerth y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau;

38.1.3 lle mae unrhyw amheuaeth ynghylch awdurdod y person sy'n llofnodi ar gyfer y parti Contractio arall;

38.1.4 lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith; neu

38.1.5 lle mae cyfanswm gwerth y Contract yn fwy na £1m.

38.2 Ni ddylid gosod y sêl heb awdurdod y Panel Gweithredol neu Aelod neu'r PST neu'r PS sy'n gweithredu o dan bwerau dirprwyedig. Bydd pob Contract o dan sêl hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn prynu swyddogol gael ei greu ar yr ateb prynu-i-dalu (lle bo ar gael).

38.3 Bydd pob Contract yn ysgrifenedig ac ar ffurf Contract a gymeradwywyd gan y Tîm Caffael ac wedi ei lofnodi gan y PS Perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd pob Contract hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i orchymyn prynu swyddogol gael ei greu ar y system prynu-i-dalu.

38.4 Bydd yr holl Gontractau ar ffurf gorchymyn prynu swyddogol sy'n cyfeirio at delerau cyffredinol perthnasol yr Awdurdod neu unrhyw delerau ac amodau eraill a gynhwysir yn y cais am ddyfynbris. Bydd pob Contract o'r fath yn cael ei greu ar yr ateb prynu-i-dalu (lle bo ar gael) a gall y PST neu'r PS Perthnasol neu ei gynrychiolydd enwebedig eu cymeradwyo neu eu llofnodi.

38.5 Nid oes angen i Gontractau Brys a ddyfernir o dan RhGC 14.3.3 neu 14.3.11 fod yn ysgrifenedig cyn cychwyn ond rhaid eu cadarnhau'n ysgrifenedig cyn gynted â phosibl.

38.6 Dylai'r holl Gontractau ysgrifenedig gwreiddiol gael eu cadw gan y Swyddog Cyfrifol.

38.7 Pan fo ffurf safonol genedlaethol briodol ar y Contract, bydd y ffurf safonol honno'n cael ei defnyddio, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau y gellir cytuno arnynt gyda'r Tîm Caffael mewn ymgynghoriad â PS perthnasol. Rhaid i Swyddogion Cyfrifol sicrhau bod unrhyw Gontract ffurf safonol a ddefnyddir mewn unrhyw gaffael yn dal i fod mewn grym, yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol.

38.8 Ni fydd unrhyw Gontract yn cychwyn nes bod y ddogfennaeth ysgrifenedig wedi'i chwblhau, ac eithrio mewn achosion brys, ac os felly bydd y ddogfennaeth ysgrifenedig yn cael ei chwblhau cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

**39. Bondiau, Gwarantau, Iawndal Penodedig ac Eraill**

39.1 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn cynnal asesiad risg i benderfynu a oes angen bond perfformiad neu warant perfformiad.

39.2 Rhaid i'r holl Gontractau gynnwys darpariaeth i'r Contractwr dalu iawndal penodedig os nad yw telerau'r Contract yn cael eu cyflawni'n briodol, ac eithrio pan fo'r Tîm Caffael yn cymeradwyo math arall o gywiriad.

**40. Gwarant Rhiant-Gwmni**

40.1 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn ceisio gwarant rhiant-gwmni pan fydd Contractwr yn is-gwmni i riant-gwmni ac:

40.1.1 Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad o'r rhiant-gwmni; neu

40.1.2 Mae rhywfaint o bryder ynghylch sefydlogrwydd y Contractwr.

**GWEITHREDU CONTRACT**

**41. Rheoli Contract**

41.1 Rhaid i bob Contract fod â rheolwr Contract penodol drwy gydol y Contract. Rhaid i reolwyr Contractau gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn a lle bo'n briodol, fframwaith rheoli'r prosiect.

41.2 Rhaid i bob Contract sy'n strategol gritigol neu risg uchel neu werth uchel neu broffil uchel fel y pennir gan y PS perthnasol, fod yn destun adolygiad Contract ffurfiol gyda'r Contractwr.

**42. Perfformiad y Contract**

42.1 Bydd pob Contractwr yn destun adolygiadau perfformiad Contract rheolaidd trwy adborth a dderbynnir gan randdeiliaid allanol a mewnol. Lle bo'n briodol, cynhelir adolygiad perfformiad ar ddiwedd pob Contract neu waith. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i gofnodi perfformiad da a gwael gan gynnwys cwynion, materion a diffygion sy'n codi o dan y Contract a monitro casglu diffygion Contractwr at ei gilydd gan gynnwys materion yn ymwneud â pherfformiad.

42.2 Bydd achosion o berfformiad gwael yn cael eu codi gyda'r Contractwr yn y lle cyntaf yn ysgrifenedig neu mewn cyfarfod lle caiff nodiadau eu gwneud a'u hanfon at y Contractwr cyn i'r adroddiad blynyddol gael ei anfon. Mewn achosion o berfformiad arbennig o wael neu berfformiad gwael parhaus, bydd y Swyddog Cyfrifol yn ystyried a ddylid argymell atal neu eithrio o Gytundeb Fframwaith yr Awdurdod neu Gytundeb Prynu Dynamig neu derfynu'r Contract yn gynnar yn unol â RhGC 47.

**43. Terfynu Cytundeb**

43.1 Dylid gofyn am gyngor cyfreithiol cyn i unrhyw Gontract ddod i ben yn gynnar.

43.4 Rhaid i unrhyw Gontractau sy'n cael eu terfynu'n gynnar gael eu cofnodi yn erbyn cofnod y Contract ar y gofrestr Contractau corfforaethol.

**44. Amrywiadau Contract ac Estyniadau Contract**

44.1 Gall unrhyw Gontract gael ei amrywio neu ei ymestyn yn unol â'i delerau ac amodau ac ar yr amod nad yw'r Contract wedi dod i ben.

44.2 Os nad yw'r telerau'n darparu'n benodol ar gyfer amrywiad neu estyniad, yna gellir gwneud amrywiadau neu estyniadau gyda chytundeb y partïon Contractio eraill a chymeradwyaeth gan y PS perthnasol.

Ni ellir gwneud unrhyw amrywiad neu estyniad os byddai'r amrywiad arfaethedig:

(a) yn golygu bod y gwaith, y gwasanaethau neu'r nwyddau sydd i'w hychwanegu atynt neu eu dileu o'r Contract gwreiddiol yn sylweddol wahanol o ran cwmpas: neu

(b) yn torri deddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

44.3 Cyfrifir gwerth amrywiad neu estyniad trwy gymryd gwerth cyfanredol yr holl amrywiadau neu estyniadau a wneir i'r Contract. Ni wneir unrhyw amrywiad sy'n ychwanegu at gost y Contract nes bod y PS perthnasol wedi nodi cyllid.

44.4 Ni fydd RhGC 44.2 yn berthnasol mewn achosion brys, gall y PO perthnasol gymeradwyo'r amrywiad neu'r estyniad ar yr amod bod y peth yn cael ei adrodd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

44.5 Bydd pob amrywiad Contract yn cael ei gofnodi yn y gofrestr Contractau a bydd diwygiad yn cael ei wneud i'r gorchymyn prynu gwreiddiol drwy'r ateb prynu-i-dalu (lle bo ar gael).

**45. Taliadau Contract**

45.1 Bydd y swyddog perthnasol yn cadw dogfennau'r Contract, sicrhau bod y gofrestr Contractau yn cael ei diweddaru a chodi gorchymyn prynu ar yr ateb prynu-i-dalu.

45.2 Bydd taliadau i Gontractwyr oherwydd Contractau yn cael eu gwneud dim ond ar dystysgrif a roddir gan y PS Perthnasol, neu ymgynghorydd preifat os bydd yr Awdurdod yn ei benodi, neu gan swyddog a enwebwyd gan y PS Perthnasol fel y bo'n briodol. Bydd enwau'r swyddogion sydd wedi eu hawdurdodi i gymeradwyo cofnodion o'r fath yn cael eu hanfon at y Swyddog Adran 151.

45.3 Ni ddylid cyhoeddi tystysgrif derfynol unrhyw Gontract nes bod y Swyddog Cyfrifol wedi llunio datganiad manwl o'r cyfrif a'r holl ddogfennau perthnasol.

45.4 Gall y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) ddefnyddio disgresiwn i wrthbwyso unrhyw symiau sy'n ddyledus gan Gontractwr i'r Awdurdod yn erbyn unrhyw symiau sy'n ddyledus gan yr Awdurdod i'r Contractwr, ar yr amod bod Contract ffurf safonol ar waith, mae unrhyw gamau a gymerir yn unol â'r ffurflen safonol honno.

45.5 Bydd hawliadau gan Gontractwyr mewn perthynas â materion nad ydynt yn glir o fewn telerau unrhyw Gontract presennol yn cael eu cyfeirio at y Tîm Caffael cyn dod i gytundeb.

45.6 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn ystyried gweithredu iawndal penodedig yn unol ag amodau'r Contract lle nad yw gofynion y Contract yn cael eu cyflawni'n briodol.

**46. Aseiniadau a Newyddiad**

46.1 Dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan y PS perthnasol y gellir aseinio unrhyw Gontract i Gontractwr arall, ar yr amod bod hyn wedi'i gynnwys fel amod Contract ac y caniateir hynny o dan ddeddfwriaeth y DU.

**47. Enwebu Nwyddau neu Gontractwyr neu Gyflenwyr**

47.1 Mae tryloywder, peidio â gwahaniaethu a thriniaeth gyfartal yn egwyddorion caffael craidd a gaiff eu tanseilio trwy enwebu cynhyrchion a chyflenwyr.

47.2 Rhaid i Swyddogion Cyfrifol geisio nodi nwyddau a gwasanaethau trwy gyfeirio at ddisgrifiadau gwrthrychol, nad ydynt yn benodol i gynnyrch. Gellir nodi nwyddau neu wasanaethau cyfatebol bron bob tro. Os nad yw hyn yn bosibl am resymau technegol dilys, a rhaid nodi math penodol o gynnyrch neu wasanaeth neu ddull cynhyrchu neu gyflenwi, yna rhaid ychwanegu'r geiriau "neu gyfwerth" bob amser.

47.3 Gall yr Awdurdod ddarparu rhestr o gyflenwyr neu is-gontractwyr cymeradwy gan yr Awdurdod i brif Gontractwyr posibl ar yr amod y gwneir yn glir eu bod yn rhydd i is-gontractio i bwy bynnag y dymunant, yn amodol ar hawl yr Awdurdod i gydsynio. Ni fydd caniatâd yr Awdurdod yn cael ei atal yn afresymol. Rhaid i unrhyw is-gontractwyr fodloni gofynion rhesymol yr Awdurdod mewn perthynas â safonau technegol, statws ariannol a lefelau yswiriant.

47.4 Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn berthnasol i enwebiad is-gontractwr neu gyflenwr ar gyfer gwneud gwaith neu wasanaethau neu gyflenwi nwyddau. Bydd is-gontractwyr neu gyflenwyr yn anfon ymrwymiad gyda'r tendr i weithio i'r prif Gontractwr a'u hindemnio am y gwaith, y gwasanaethau neu'r nwyddau sydd wedi'u is-gontractio.

## CONTRACTAU PENODOL

### 48. Contractau Tir

48.1 Rhaid i bob trafodiad tir gydymffurfio ag Adran 120 - 123 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

48.2 Gall penodi datblygwr o dan Gytundeb Datblygu fod yn ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Caffael 2023 a rheolau 18, 19, 20 a 21 y Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn.

48.3 Rhaid ceisio cyngor cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw drafodion tir sy'n cynnwys Cytundebau Datblygu.

## ARALL

### 49. Cadw Ffeiliau Contractau

49.1 Pan fo cyllid wedi'i dderbyn gan sefydliad allanol, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod y Contract a ffeil y Contract yn cael eu cadw am y cyfnod a bennir gan y corff cyllido hwnnw.

49.2 Ym mhob achos arall, rhaid cadw ffeil y Contract a baratowyd ar gyfer pob Contract dros £40,000 am **chwe blynedd o ddiwedd tymor y Contract** oni bai bod y Contract wedi'i weithredu o dan sêl, ac os felly rhaid cadw'r Contract am **12 mlynedd o ddiwedd tymor y Contract.**

49.3 Gall dogfennau sy'n ymwneud â Thendrau aflwyddiannus gael eu micro-ffeilio neu eu sganio'n electronig neu eu storio mewn ryw ddull addas arall ar ôl 12 mis o ddyfarnu'r Contract, ar yr amod nad oes anghydfod ynghylch y dyfarniad.

### 50. Adolygu a Diwygio'r Rheolau Gweithdrefn Contractau

50.1 Gall Tîm Caffael a Chyllid y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) wneud unrhyw newidiadau bach neu ganlyniadol i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn.

50.2 Bydd y PSTC (Cyllid ac Adnoddau) ar y cyd â'r Tîm Caffael yn adolygu'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn barhaus a bydd yn cynnal adolygiad ffurfiol bob tair blynedd.